

ECO'R WYDDFA

Rhif 33

IONAWR 1979

Pris: 12c

gŵr a gwraig ar ddiŵs



"NID ofer yr ymaros — o'r diwedd dyma'r wraig a'r gŵr yn mynd ati i wneud record ar y cyd," meddai Rol Williams wrth gyfeirio at record hir gyntaf y ddeuawd boblogaidd o Lanberis — Rosalind a Myrddin Owen.

Mae'r ddau wedi torri sawl record ar wahân — ond dyma'r gyntaf gyda'i gilydd. Mae Myrddin wrth gwrs yn aelod o Hogia'r Wyddfa a Rosalind wedi gwneud enw iddi hi ei hun fel cantores caneuon poblogaidd unigol. Mae'n record dda eithriadol gydag amrywiaeth o ganeuon arni i apelio at bob aelod o'r teulu.

Mae dylanwad bro'r Eco'n drwm ar y caneuon. Cyfieithiwyd geiriau'r gân "Breuddwyd Hoff" gan Mrs Dilys Bayliss, Llanberis. Cyfieithiwyd geiriau dwy gân arall "Y Rhosyn Gwyn" a "Ffermando" gan Rol Williams, y Waunfawr a defnyddir dwy gerdd arall gan yr un awdur "Dim Ond 'Helô'," ac "Yng Ngolau'r Lloer". Tanlinellir ar y record hon gymaint yw cyfraniad Rol Williams i ddiwylliant cyfoes y Genedl. Cyfieithiodd gwraig Rol, sef Gwenlli Williams, eiriau "'Rhen Gadair Siglo" i'r Gymraeg i'w defnyddio ar y record.

Mae rhai o'r fro wedi cyfansoddi alawon ar eu cyfer hefyd. Cyfansoddwyd "Dy Gymru Di" gan Mrs M. Lloyd (mam Rosalind) ac "I Blentyn" a'r "Sipsiwn" gan Arwel, Hogia'r Wyddfa.

Cyfraniad amhrisiadwy unwaith eto gan artistiaid o fro'r Eco i ddiwylliant a chanu'r Cymry.

LLIFOGYDD

Cynghorydd yn amlinellu'r broblem

MAE llifogydd yn broblem y mae llawer un ym mhentref Llanberis a'r cylch yn gyfarwydd iawn â hi. Mae hefyd yn broblem sy'n peri pryder arbennig i'r Cynghorydd Francis Jones. Canlyniad sgws a gafwyd rhwng y Cynghorydd a gohebydd yr Eco yw'r erthygl hon.

Gŵyr pawb sydd wedi byw yn ardal Llanberis nad rhywbeth diweddar yw llifogydd. Tua'r flwyddyn 1934 glanhawyd yr afon a daeth y sefylla'n well ar ôl hynny. Ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r broblem, fel lefel y dŵr, wedi codi eto. Tystiodd Mr Jones iddo gyfrif 32

o deiers ceir a nifer o duniau olew mawr yn y man ble mae'r Galedffrwd yn dechrau cydlifo â'r Seiont yn ardal Penllyn. Tynnwyd ei sylw at hyn gan bysgotwr profiadol o'r Cwm a gofiai am byllau rhwng pymtheg ac ugain troedfedd o ddyfnder yn yr afon. Heddiw, bron na ellid cerdded ar



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Holl Ddarllenwyr yr Eco

Rhieni Yn Mynnu Addysg Gyflawn— Drwy'r Gymraeg

YCHYDIG wythnosau yn ôl cynhaliwyd rali yng Nghaernarfon wedi ei threfnu gan Fudiad Addysg Gyflawn Arfon, Dwyfor, Ardudwy ac Ogwen. Pwrpas y cyfarfod oedd dangos grym i'r cais am addysg uwchradd gyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion uwchradd y sir.

Ymhlith y 300 o rieni a chefnogwyr o bob cwr o Wynedd 'roedd cyfran dda ohonynt o ardal yr Eco. Poeni y maent nad yw yr ysgolion uwchradd lleol, Brynrefail, Caernarfon, Dyffryn Ogwen ac yn y blaen, sy'n Gymreig eu hawyrgylch, yn darparu yn gyflawn ar gyfer pynciau drwy famiaith y rhan fwyaf o'r plant.

Trefnwyd deiseb yn gofyn i "Bwyllgor Addysg Gwynedd i sicrhau cynnydd sylweddol y nifer o bynciau sy'n cael eu dysgu drwy'r Gymraeg yn yr ysgolion uwchradd ym Medi 1979, gyda dilyniant yn y pynciau hynny drwy'r ysgol hyd at Lefel 'A'."

Mae cannoedd eisoes wedi arwyddo'r ddeiseb a gobeithir cael tua chwe mil o enwau arni yn ystod y misoedd nesaf. Arwyddodd tua cant o rieni ddeiseb arall i ddangos y byddent yn barod i gadw eu plant o'r ysgolion fis Medi nesa' os na fydd y Pwyllgor Addysg yn talu sylw i'w cais.

Cafwyd areithiau grymus gan rieni, cynghorwyr lleol, darlithwyr prifysgol, cynrychiolydd undeb, meddyg ac athrawon. Barn y siaradwyr oedd mai gwrthun o beth oedd gorfod mynd "ar ofyn" Awdurdod Addysg sy'n berchen polisi iaith mor bendant am addysg Gymraeg yn y sir fwyaf Cymreig yng Nghymru. Mae'r ffaith yn bod nad yw'n bosib' i blant gael eu haddysg uwchradd yn gyfangwbl drwy eu mamiaith. Eironi y sefyllfa ydyw ei bod yn bosib' i blentyn yn y rhannau mwyaf Seisnig o Gymru, fel dwyrain Clwyd a siroedd Morgannwg, gael ei addysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Oes rhaid i ninnau, yn y rhannau mwyaf Cymreig o'r sir Gymreiciaf golli'r iaith cyn sylweddoli ei gwerth fel cyfrwng addysg?

Cystadleuaeth Fawr y Nadolig



★ £5 ★ am

Ddarganfod


Enwogion

draws y manau hynny, meddai. Wrth gwrs, rhaid cydnabod hefyd fod y sefyllfa wedi gwaethgu'n naturiol. Mae'r afon, ers y tri-degau, wedi bod yn gwaddodi llawer o fwd a cherrig mân ar ei gwely.

Mynegodd Mr Jones fod pethau wedi gwaethgu ar ôl i'r Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan ddechrau ar eu cynlluniau yn yr ardal ac yn arbennig ar ôl iddynt droi yr Afon Hwch yn syth i Lyn Padarn. Yn y gorffennol 'roedd Llyn Peris yn derbyn yr holl ddŵr o nentydd y Bwlch ac yn ffurfio math o gronfa naturiol. 'Roedd y dŵr yn cael ei reoli'n naturiol, fel petai, wrth lifo o Beris i Badarn. Mae'r Hwch yn afon sy'n llenwi'n arw ar law trwm a hyn sy'n rhannol gyfrifol am y ffaith fod lefel y dŵr yn Llyn Padarn yn aros yn uchel am gyfnod hwy. Dangoswyd hyn pan ddechreuodd blaen y lanfa ddechrau disgyn i'r llyn. Yn ystod y deunaw mis diwethaf y digwyddodd hyn. Cytunodd y B.C.C.T. i ail-

Parhad ar dudalen 16

Os gellwch ddarganfod pwy yw'r ferch brydferth sydd â hanner ei wyneb wedi ei orchuddio; a thri arall sydd yn ymddangos ar y dudalen ganol yna fe ellwch fod yn werth £5 erbyn dechrau'r flwyddyn newydd.



Trowch i'r dudalen ganol am fanylion y gystadleuaeth.

ECO'R WYDDFA

RHIF 33

IONAWR 1979

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd,
Nant Peris.

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cym-
deithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

Y Garreg Wen,
Maldwyn, Caersws,
Powys SY17 5EP.
Annwyl Gyfaill,

A dweud fel y dywedai y di-
weddar Bob Robaits, Tai'r Felin,
"Choeliwch chi byth" gymaint o
bleser a gefais o ddarllen rhifyn
Tachwedd o'r Eco wyf yn ei
dderbyn trwy garedigrwydd
Andrew ac Alice Griffiths,
Dinorwig. Yn rhyfedd iawn
galwodd y Parch. Victor Thomas
sydd yn enedigol o Ddinorwig
gyda mi yr wythnos diwethaf, a
thros baned o de cefais gryn dipyn
o hanes yr hen ardal.

Ys gwn i pwy yw neu oedd y
plant yna a welir yn y llun o ysgol
Llanddinorwig yn 1939? Yr ysgol
ble bŵm i hyd yn 14 oed. Yr
ysgol, oherwydd polisi'r
awdurdod addysg y pryd hynny,
lle y gwaherddid siarad Cymraeg o
fewn ei muriau. Llun athrawon
ysgol Deiniolen eto, 'rwyf yn
cofio'r rhan fwyaf ohonynt, yn
enwedig y prifathro, R.G.
Williams, y bŵm gydag ef droeon
yn dysgu canu; 'roedd yn lleisiwr
a dysgwr da.

Gofid i mi oedd darllen am farw
Mr John H. Williams yn
nheyrnged Mrs Enid Jones (pwy
bynnag yw?) Ie Johnie Wmffri'
oedd ei enw i ni pan yn blant.
Wmphra Williams oedd enw ei dad
oedd yn byw pan anwyd Johnie
yn Nhyddyn Uchaf, sydd yn
adfeilion erbyn hyn. 'Roedd
Tyddyn Uchaf led cae union o'r
giât Parc Lloer, heddiw yn
fynedfa i Lyn Marchlyn Mawr.
Heb fanylu, teulu a adnabŵm i
yng Nghlwt y Bêl yn well na'r un
teulu arall yn yr ardal.

O ddarllen hanes Llanrug a
Phontrhythallt, meddyliais tybed
a garai fy ffrind, Mr. Owen Glyn
Owen, Goruchwyliwr Banc yn y
Drenwydd gael golwg ar yr Eco.
Pan ofynnais iddo, 'roedd yn
awyddus iawn i'w gael. Un o
Llanrug yw 'Glyn' a'i fam, os wyf
yn cofio yn iawn, yn un o ferched
Pengolwg, Deiniolen, a bob tro y
cyfarfyddwn, sôn am 'Lanbabo' a
Llanrug y byddwn. 'Roeddwn yn
ei atgoffa'r dydd o'r blaen
amdano yn cael mynd gyda'i fam
i Lerpwl pan yn blentyn, a phan
welodd nifer yr Heddlu ar stryd-
oedd Lerpwl, dywedodd wrth ei
fam, 'Toes yma lawer o Blisnod
yma mam'.

Cofion at bawb yn Neiniolen.
Pob lwc i'r Eco,
W. Rowlands
(Wil Clwt y Bêl gynt)

Gayney Griffith

158 Ffordd Penrhos,
Bangor.

Syr,
Gayney (Gaynor) Griffith (Evans)
Diddorol iawn oedd y cyfeiriad
yn rhifyn mis Hydref o Eco'r
Wyddfa at y gantores Gayney
Griffith (Evans) o'r Weirglodd
Ddu, Nant Peris, a gladdwyd ym
mynwent Sant Peris ar Ragfyr 5,
1942, ar ôl marw'n 92 oed yn
Ysbyty Eryri, Caernarfon.

'Rwy'n siŵr y byddai o ddi-
ddordeb i'ch darllenwyr wybod
bod y gantores hon yn cymryd
rhan yn y perfformiad cyntaf o
Blodwen (Joseph Parry), - yr
opera Gymraeg gyntaf, - yn
Aberystwyth, a'i bod yn
ganmlwyddiant y perfformiad
hwnnw eleni.

Yn ôl rhifyn Mai 25, 1878, o'r
Aberystwyth Observer, hi a bort-
readai Ellen, merch Arglwyddes
Maelor, yn y perfformiad yn y
Temperance Hall, Aberystwyth, a
chan y cyfeirir ati fel 'Miss
Gayney Griffith, UCW', mae'n
rhaid ei bod ar y pryd yn fyfyr-
wraig yn y Coleg yn Aberystwyth.
Yn cymryd rhan yn yr un
perfformiad o'r gwaith yr oedd
William Davies, y Rhos (awdur
'O! na byddai'n haf o hyd' a 'Nant
y Mynydd'); J. Lucas Williams, un
o brif faritoniaid y genedl yn y
ganrif o'r blaen; ac R.C. Jenkins, a
ddaeth yn ddiweddarach yn
arweinydd y gymdeithas gorawl
enwog yn Llanelli.

Gan fod Joseph Parry, y cyfan-
soddwr, yn ofalus iawn wrth
ddewis y cantorion ar gyfer y
perfformiad cyntaf o'i opera,
mae'n rhaid bod Gayney Griffith
yn soprano wych yn ei dydd, a
bod ganddo yntau gryn feddwl
ohoni.

Huw Williams

134 Penrodyn,
Y Fali,
Sir Fon.

'BEDDAU Y CHWILWYR'

Annwyl Syr,


Yn eich rhifyn diwethaf ysgrif-
ennodd H. Thomas, Llannor am ei
awydd i durio i weld a oedd rhyw-
beth yn y traddodiad fod beddau
milwyr yn y llecyn ger Brynsbio,
Dinorwig.

Pan yn blentyn mi wnes yr
union beth, sef turio i lawr yn y
llecyn a darganfod mai traeniau
oedd yno. 'Roedd rhain wedi eu
llunio o lechi ac ôl llifio'r chwarel-
wyr arnynt; ni allent felly fod yn
hen iawn.

Cefais fy nwyn i fyny yn yr
ardal ond ni chlywais erioed sôn
am 'Feddau y Chwilwyr' nac am
'Feddau Milwyr'. Er hynny,
'roedd yn siom fawr canfod
traeniau ac nid sylfeini plasdy
mawreddog.

Arfon Jones.

Cronfa Eisteddfod Caernarfon



Mae pob colofn yn golygu nod y pentref.

DROS Y NOD

Y SWM YN Y COFFRAU

Diolch am eich cyfraniad:

£1: Di-enw, Llanberis

50c: Di-enw, Llanrug

DAW Y RHIFYN NESAF
ALLAN AR IONAWR 25
DEUNYDD I LAW'R
GOLYGYDDION
PERTHNASOL ERBYN
IONAWR 17
OS GWELWCH YN DDA

DEINIOLLEN

MARW — Brawychwyd yr ardal nos Fercher, Rhagfyr 6 pan glywyd am farwolaeth annisgwyl Mrs Megan Lambert, 80 Pentre Helen yn 55 mlwydd oed. Bu'r angladd yn Ebenezer a mynwent Macpela ddydd Llun, Rhagfyr 11. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Mr Leslie Lambert a'r teulu oll yn eu profedig-aeth.

DIOLCH — Dymuna Mr Leslie Lambert, 80 Pentre Helen a'r holl gysylltiadau teuluol ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu galar.

Dymuna Mr Owen Hughes, 50 Rhydfadog ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra yn ysbyty Môn ac Arfon.

Dymuna'r Parch. a Mrs Trefor Lewis Dewi a Dyfrig, Llŷs Myfyr, ddiolch i bawb am y croeso a gawsant ar eu symudiad i'r ardal. Eisoes y maent yn teimlo'n gartrefol iawn. Ar yr un pryd dymunant Nadolig Dedwydd i bawb a Blwyddyn Newydd Dda.

LLONGYFARCHIADAU — Unwaith eto cawn gyfle i longyfarch y tîm o dan 15 oed am gyrraedd y Rownd Derfynol o Gwpan Bernard Wardle. Bydd y gêm yma yn cymryd lle ar gae Caernarfon Utd. fore dydd Mawrth, Rhagfyr 26 am 11 o'r gloch.

Bydd bws am ddîm yn cychwyn o'r pentref am chwarter wedi deg. Dowch yn llu i gefnogi'r hogia lleol.

CYMDEITHAS LENYDDOL — (Disgwylfa a Chefnywaun) — Yn y cyfarfod o'r gymdeithas a gynhaliwyd nos Lun, Tachwedd 26, y siaradwr gwadd oedd Gwyn Parry, Deiniolen. Llwyddodd i fynd â phawb ar daith o oerni Deiniolen i wres De Affrica, a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddo ynghyd â darluniau. Y mae De Affrica yn amlwg iawn yn y newyddion heddiw ac yn sicr fe atebwyd llawer i gwestiwn sy'n achosi pryder i ni gan Gwyn. Diolch yn fawr iddo. Y mae Tocynnau Aelodaeth y Gymdeithas ar werth am 50 ceiniog, gan y trysorydd, Philip Jones, 19 Rhydfadog.

CYNGOR EGLWYSI DEINIOLLEN — Cynhelir Gwasanaeth o Garolau a Darlleniadau dan nawdd y Cyngor Eglwys, nos Sul, Rhagfyr 24, yng nghapel Disgwylfa, am 5.30 o'r gloch. Bydd cyfraniad gan aelodau y gwahanol fudiadau sydd i'w cael yn y pentref. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb i'r gwasanaeth hwn a fydd yn gyfrwng i'n paratol ar gyfer dathlu Gŵyl y Geni. Wedi'r holl baratoi a phrysurddeb beth well nag eistedd i lawr i wrando ar ddarlenniadau Belblaid a Charolau ac hefyd ymuno i mewn yn y canu.

LLONGYFARCH — Mae Mr John Evans, yr lard yn llongyfarch y Seindorf ar ei hymwelid â'r Almaen, ond gofid iddo oedd clywed am siomedigaeth un o'r aelodau, sef Hefin G. Jones, heb ganfod un o lyfrau Johnnie'r lard yn y llyfrgell yno, ond go brin y buasai Hefin yn dod o hyd iddo gan ei fod wedi ei gyfieithu i Almaeneg a'i roi wrth ochr 'Mein Kampf' Hitler. Gwell lwc y tro nesaf, meddai Johnnie.

Y SEINDORF — Prysir iawn fu hanes y Seindorf ar ôl iddynt ddychwelyd o'r Almaen. Ar Dachwedd 25 buont yn cystadlu mewn cystadleuaeth galed o safon uchel yng Ngheir Connah, yr unig Seindorf i ddod â gwobr i Wynedd. Y canlyniadau oedd: 1 — Ifton Colliery 178; 2 — Point of Air 176, a Deiniolen yn drydydd gyda 175.

Ar Ragfyr 14 buont yn difyrru bechgyn y Llu Awyr yn y Fali a hefyd nos Sul, Rhagfyr 17 eto yn y Fali cafwyd noson o garolau. Nos Fawrth, Rhagfyr 19 recordiwyd

rhaglen radio yng nghapel Disgwylfa yng nghwmni Morien Phillips, John Ogwen ac Einir Wyn Owen. Os ydych am glywed y rhaglen gwrandewch ar Radio Cymru amser cinio prynhawn Llun Ionawr 8. Nos Sul, Rhagfyr 24 cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng nghapel Disgwylfa pryd y bydd doniau lleol yn diddori a'r Seindorf yn cyfello. Y noson hon ceir y cyfle i glywed Côr Plant y pentref am y tro cyntaf er iddo gael ei sefydlu dan arweiniad Mrs Lona Lewis a Mrs Helen Lewis yn cyfello.



LLWYDDIANT — Mae Goronwy Glyn Jones, mab Mrs E. G. Jones, Glandŵr, Clwt-y-bont yn gweithio gyda'r Heddlu ym Moss Side, Manceinion. Bu ar gwrs 10 wythnos yn ddiweddar yn Bruche, Warrington. Yn ogystal â'i lwyddiant ar y cwrs, llwyddodd i gipio Medal Efydd am Achub Bywyd a Chymorth Cyntaf. 'Roedd 108 o bob rhan o Gymru a Lloegr ar y cwrs ond ychydig iawn oedd yn llwyddiannus. Llongyfarchiadau i Goronwy, a dymuniadau gorau'r fro ar gyfer y dyfodol.

APÊL GWAUN GYNFI — Nos Wener, Rhagfyr 15 cynhaliwyd Gyrfa Chwist yn Ysgol Gwaun Gynfi gyda Mr J. Maldwyn Jones yn 'MC'.

Yr enillwyr oedd:

Clwb 200:

£150: Brenda Williams, Tŷ Capel, Disgwylfa (51); £100: Mr Elfed Williams, 77 Pentre Helen, Deiniolen (106); £50: Margaret Roberts, 9 Tai Marian, Deiniolen (109); £5: Glyn a Sandy Evans, Tŷ Newydd, Waen, Peniserwaun (175); £5: G.M. Piglar, 4 Bryn Llwyd, Bangor (18); £5: Janice Adams, 5 Bryn Teg, Clwt-y-bont (149); £5: Owen Jones, 42 Pentre Helen, Deiniolen (136); £5: Eurwen Roberts, 47 Pentre Helen, Deiniolen (118). Raffi: Basged o ffrwythau: R. Williams Tai Caradog; Tun Bisgedi: Rhianon Jones, 2 Tab. St.; Collage: John Morris, Stationery Dept., County Offices; Dol: Hefin Jones, 2 Tab. St., Potel o Win: Marian Williams, Llwyn Iorwg, Clwt-y-bont; ½ cant o datws: Gwladys Jones, Tŷ Capel Libanus; Bocs Siocled: Eryl L. Jones, Gorlan, Bethesda; Potel Gwin: Clifford Edwards, Gerlan, Clwt-y-bont Gwobrwyau Chwist:

Hanner amser: Mrs G. Parry, Bangor Cacen Nadolig; Mr. Gareth Williams, Crefft Elidir; Prif Wobrau: Merched: Mr G. Parry, Bangor (2il Mrs R. Jones, Deiniolen); Dynion: Malcolm Allen, Deiniolen.

Mae rhai lleoedd ar gael o hyd yn y Clwb 200 a gwahoddir unrhyw berson sy'n dymuno ymuno i gysylltu ag aelodau o'r pwyllgor yn ddiymdroi.

CLWB YR HENOED — Cynhaliwyd cinio Nadolig y gangen yng Ngwesty'r Marine Caernarfon nos Iau, Rhagfyr 14. Mwynhawyd noson ddifor o hwyl a chân, a chafwyd ymweliad annisgwyl gan Siôn Corn a'i was a chafodd pob un oedd yn bresennol anrheg fechan ganddynt. Diolch yn fawr i Siôn Corn.

YR YSGOL FEITHRIN — Cynhaliodd yr Ysgol Feithrin leol ei pharti Nadolig ddydd Iau diwethaf. Wedi ei drefnu gan y ddwy athrawes, Mrs Elfrys Jones a Mrs Rosina Worth. Galwodd Siôn Corn yno i ddosbarthu anrhegion i'r plant ac 'roedd Mr Osmond Shaw yn bresennol i dynnu eu lluniau. Cafodd pawb wledd ardderchog.

Yn ystod y parti cyflwynwyd rhodd fechan i Mr John Morris, Gofalwr Ysgol Gwaun Gynfi, sydd yn ymddeol ddiwedd y tymor, i ddangos eu gwerthfawrogiad iddo am bopeth oedd wedi ei wneud iddynt yn y gorffennol.

DINORWIG

MARW — Tachwedd 25, trwy ddamwain fodurrol ym Mryneglwys, Corwen, bu farw Mr John Stuart Barnes, Gwynfryn, Dinorwig. Cydymdeimlir â'i weddw, Nyrs M. Barnes, a dderbyniodd niweidiau difrifol yn y ddamwain, ac â'r ferch Alison, a'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth lem a sydyn. Dymunir gwellhad buan i Nyrs Barnes.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL — Yn y Ganolfan nos Iau, Tachwedd 30 cafwyd sgwrs i'r aelodau gan y Parch. H.J. Hughes, Mynydd Llandegai ar 'Hiwmor y Chwarelwr.' Llwyddwyd gan Miss E. Wyn Jones, a thalwyd diolch gan Mrs Katie Griffith.

MARW — Rhagfyr 6 yn ei gartref, Chwarel Goch, Fachwen, yn 75 oed, wedi cystudd caled, bu farw Mr William Williams. Fe'i claddwyd ar Ragfyr 9 ym mynwent Llandinorwig. Cydymdeimlir â'r weddw, y plant a'r wyrion, a'i chwiorydd a'r cysylltiadau teuluol eraill.

CROESO ADREF — Croesewir adref o Ysbyty Môn ac Arfon Mr. H. L. Jones, 7 Bro Elidir, ac Arfon Roberts, Ysgubor o Ysbyty Dewi Sant. Bydded iddynt adferiad llwyr a buan.

LLONGYFARCHIADAU — a dymuniadau gorau i Mr Eric Iolen Williams, Tŷ Capel M.C. ar gyrraedd ei 21ain ar y 7fed o'r mis. Pob bendith a llwyddiant i'r dyfodol.

DIOLCHIADAU — Dymuna plant a theulu'r diweddar Mr Morris Perkins, 5 Bro Elidir ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth annisgwyl o golli tad a thaid cariadus. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol er cof amdano a drosglwyddir tuag at waith Ysbyty Clatterbridge.

Y CLWB IEUENCTID — Yn y Ganolfan ar Ragfyr 5 dan nawdd yr uchod cynhaliwyd Noson Goffi. Âi'r elw at gysuron Nadolig yr Henoed.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd i wneud y parti'n llwyddiant, hefyd i Mr Osmond Shaw am dynnu a gwerthu lluniau o gyngerdd y plant a'r Carnifal yn ystod yr haf. Gwnaeth elw o £40 tuag at yr Ysgol Feithrin.

Enillwyr y raffl oedd:

Mrs. D. Hughes, Tynyweirglodd, D. Smith, Fron, Nurse Hughes, Clinic.

DIOLCH — Dymuna Mrs C.J. Jones, 28 Hafod Olau ddiolch o galon i'w theulu a chyfeillion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei gwaeldd yn ddiweddar.

DIOLCH — Dymuna Eric Iolen Williams, Tŷ Capel, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 21 oed.

CYFARCHION y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'r holl ardalwyr.

DR. MILLS ROBERTS

Gwyndy,
Bontnewydd,
Caernarfon.

Annwyl Olygydd,

Buaswn yn ddiolchgar pe buasech yn hysbysu yn Eco'r Wyddfa gais am unrhyw wybodaeth am y diweddar Dr. R.H. Mills Roberts.

Bu hanes byr amdano yn rhifyn Mawrth '78 o'r Eco fel gôlgeidwad i dîm pêl-droed Preston North End am dymhorau lawer o gwmpas 1888, ac iddo ennill wyth cap i Gymru rhwng 1885 ac 1892. Ar ôl hyn, bu'n chwarae i Glwb Pêl-droed Llanberis, a gadawodd yr ardal ar ddechrau'r rhyfel yn 1914.

Ceisio mynd ar ôl achau'r teulu yw fy mhleser ar hyn o bryd, ac mae prinder deunydd hanes Dr. Mills Roberts, a buaswn yn ddiolchgar a dyledus am unrhyw fanylion amdano am y cyfnod pan oedd yn Llan Ffestiniog; pan yn ofalwr ysbyty'r chwarel Llanberis; (tua 1893) yn Hafoty, Dinorwig; neu yn y Grosvenor, Llanberis, ac yn enwedig pan oedd yn chwarae i dîm Preston North End a Llanberis.

Nid oes gennyf unrhyw hanes amdano ar ôl 1914, a gobeithiaf y daw rhyw oleuni am y cyfnod yma hefyd.

Yr eiddoch yn gywir iawn,
E.M. Hugheston-Roberts

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
ODDI WRTH

E.W.&M.WILLIAMS
Y BECWS
DEINIOLLEN

Ffôn : Llanberis 232

BARA FFRES TEISENNAU BLASUS!
Arbenigwyr ar deisennau priodas
Dosberthir bob Llun, Mercher a Gwener
yn Neiniolen, Dinorwig a Fachwen



DYMUNA
PAT ac ERNIE

GWESTY'R RHYTHALLT

Llanrug

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA

i gwsmeriaid a
chyfeillion oll

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
Gwsmeriaid Hen a Newydd
oddi wrth

SIOP DELEDU T CEPAS

FFORDD YR ORSAF
LLANRUG
(Ffôn Llanberis 205 min nos)

CYFARCHION Y TYMOR
A
DYMUNIADAU GORAU AM 1978
oddi wrth
NEIL, IRIS a TONY

y Siop Sglodion Pontrhythallt Llanrug

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa

R. Hughes Jones a'r Mab

The Butchery
BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3188



Cig blasus — prisiau rhesymol

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN :
CAERNARFON 2898

Gwaith Coffäol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa

Dymuna
holl
Staff

Y CO-OP LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 2937

Nadolig
Llawen

a


Blwyddyn
Newydd

Dda i holl ddarllenwyr yr Eco


COFIWCH FOD YMA BRESANT NADOLIG I BAWB —
Dillad Dynion, Merched a Phlant, Teganau, Slipars,
Blancedi, Llyfrau, Carpedi, Bwydydd a Diodydd



FE'CH SICRHAWN CHI
Y CEWCH EIN GWASANAETH
SIRIOL A'R BARGEINION
ARFEROL TRWY GYDOL
1979



CYFARCHION NADOLIG O LANRUG



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'n cwsmeriaid a'n cyfeillion oll
oddi wrth
deulu

**SIOP a MODURDY
GROESLON MARC
LLAN** (fihangel-yn-y-g) **RUG**

Ffôn: CAERNARFON 2445

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
BERYL

**LLYTHYRDY
LLANRUG**



Ffôn: Caernarfon 2422

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

**R&V
JONES**

SNOWDON STORES
LLANRUG

Ffôn :

CAERNARFON 4472)

PAPURAU NEWYDD
A BWYDYDD

A fydd eich anrheg Nadolig chi wedi ei daflu o'r neilltu erbyn
lonawr 1af 1979?

Mae arian yn brin — Buddsoddwch nhw yn eich cartref i gael
gwerth parhaol trwy gydol y flwyddyn. 'Dyw hi'n dal ddim
yn rhy hwyr i ddod i weld ein:

Ceginau, Ladylove a Flair; Baddonau (stoc anferth); Gratiau (ar
brisiau gostyngol); Paent; Papur Papuro a Sgwariau Carpedi Dulux
Teils; Cushionfloor a Drysau "Spacesaver" Marley

+ Anghenion Adeiladu — tywod, sment, landeri, ffitiadau plymio
ac ati a Chymhorthion D.I.Y.

A.Winstanley
LLANRUG

FFORDD

YR ORSAF

FFÔN: CAERNARFON 2122

Ar Agor Llun — Gwener 9—5; Sadwrn 9—4
(Ar gau brynhawn Mercher)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

DYMUNA

**WIL a MYRA
PRITCHARD**

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG

(Ffôn: Waunfawr 353)

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWÍ OLL



CYFARCHION Y TYMOR
ODDI WRTH

**GLYN
ROBERTS
a'r Mab**

DYNION GLO A CHLUDWYR
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2125

Mi gadwa ni chi'n gynnes dros yr ŵyl!

**GELLWCH
YMDDIRIED
YN**

**JOHN
TREVOR**

**Garej Hafod
Llanrug**

**am geir newydd
ac ail law rhagorol**



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

CYFARCHION O LANRUG



NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
oddi wrth
W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW



BP heat



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

*Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.*

(PARHAD)

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
oddi wrth

STORFA

Mace

**O.R. & M.
PARRY**

**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Perchnogion newydd,
ond gwasanaeth a chroeso
cystal ag erioed !

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris




**Bwsiau Arfon
LLANRUG**

FFÔN

WAUNFAWR 254

Simneiau glân am bris rhesymol gan



*Defnyddir
peiriant sugno i lanhau*

G. LLOYD

4 PLAS TIRION TERRACE,
LLANRUG

Cyfarchion y Tymor i chwi oll

Ffôn: Caernarfon 4781



**Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd
Dda**



oddi wrth

STUART & JANET

DAVE, GARRY, MARK, TONY & NIGEL

**SNOWDON GARAGE
LLANRUG**

FFÔN: CAERNARFON 3506

YR ARBENIGWYR AR ATGYWEIRIO MECANYDDOL
A THRWSIO WEDI DAMWAIN.
GWASANAETH 24 AWR — GORSAF M.O.T



LLANRUG

PANTOMEIM ELIBABI — Bydd y bws yn cychwyn o Dan-y-coed, ddydd Iau, Rhagfyr 28 am 1.15 p.m. ac yn mynd o amgylch y pentref fel arfer. Unrhyw fanylion pellach gan Siân Williams, Cartref. Ffôn: Caernarfon 3577.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL — Nos Lun, Rhagfyr 4 bu Mr R. Gordon Williams, Penygroes, yn rhoi sgwrs a pheth o'i hanes ar ei ymweliad â China. Llywydd y noson oedd Miss Megan Humphreys a diolchwyd i Mr Williams gan Mrs W.A. Jones. Bydd y cyfarfod nesaf Ionawr 6 pryd y disgwylir y Parch. O.M. Lloyd, Caernarfon i annerch.

YN YR YSBYTY — Dymunir adferiad

DDYNION

A

MERCHED!

Edrychwch ar eich gorau
y Nadolig hwn ar ôl trin
eich gwallt yn

A. WILLIAMS

Ffordd yr Orsaf,
LLANRUG.

Ffôn: Caernarfon 2023

Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda
i bawb.

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
oddi wrth
Peter a Muriel
GWESTY

Glyntwrog Llanrug

Diolch yn fawr am
eich cefnogaeth trwy
gydol y flwyddyn

iechyd buan i Mrs Doris Owen, 22 Bro Rhyddallt sydd yn yr ysbty ym Mangor.

TE PARTI — Mwynhaodd plant Ysgol Sul, Pontrhythallt eu parti Nadolig yr wythnos ddiwethaf wedi ei drefnu gan garedigion yr Ysgol Sul. Rhoddwyd rhoddion ariannol iddynt. Diolchwyd ar ran y plant gan Jean Roberts.

PLAID CYMRU — Trefnir Noson Goffi yn y Neuadd Goffa nos Lun, Ionawr 29.

GWEITHGARWCH MERCHED Y WAWR — Igon Llanrug a ofalai am y Caffi yn Ffair Merched y Wawr yn Neuadd y Fyddin, Caernarfon. 'Roedd yn llonni calon rhywun wrth weld y gwragedd ifanc gosgeiddig yn gweini wrth y byrddau, Gwnaed elw sylweddol at babell Merched y Wawr a fydd ar gae Eisteddfod Caernarfon, 1979.

Aeth Côr Merched y Wawr a'r Cor Adrodd o dan ofal Mrs Lovatt a Mrs Horman i ddifyrru trigolion Plas Pen Gwaith ar Ragfyr 4.

Nos Lun, Rhagfyr 11 aeth y gangen i Westy'r Fictoria, Llanberis i'w parti Nadolig. Trefnwyd adloniant wedi'r cinio gan aelodau'r pwyllgor.

Bydd y gangen yn cymryd rhan mewn gwasanaeth carolau yn y Capel Mawr nos Sul y Nadolig.

UNDEB Y MAMAU — Cynhaliwyd gwasanaeth carolau Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Mihangel yn ddiweddar. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Rheithor. Y darllenwyr oedd Mrs Jones, Aden; Mrs Williams, Llys Llywelyn; Mrs Pierce, Glanrafon; Mrs Williams, Y Rheithordy a'r Rheithor.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

Yr organyddes oedd Mrs Owen, Glasdy. Darparwyd lluniaeth ysgafn yn y Rheithordy wedi'r gwasanaeth gan Mrs Spratt a Miss A.C. Jones, Glanllyn.

GWASANAETHAU'R NADOLIG — Bydd gwasanaethau'r Sul, Rhagfyr 24 fel arfer yn Eglwys Sant Mihangel ond bydd Offeren Gynta'r Nadolig am hanner awr wedi un ar ddeg nos Sul 24.12.78 a bydd gweinyddiad o'r Cymun Bendigaidd am chwarter wedi deg fore'r Nadolig a hefyd yn Saesneg am chwarter wedi un ar ddeg. Bydd Gwasanaeth Naw Llith a Charol am bump o'r gloch nos Sul, Rhagfyr 31.

TE PARTI AC YMWELIAD Â'R PANTOMEIM — Bydd plant Ysgol Sul Sant Mihangel yn mwynhau eu te parti ar ddydd cynta'r flwyddyn newydd a byddant yn ymweld â'r pantomeim Elibabi yn yr hwyr.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD (Capel Mawr) — Daeth cynulliad da ynghyd i'r Ffair Nadolig er garwed y tywydd, Dymunir diolch i bawb am eu sirioldeb i'r chwiorydd fu o amgylch yn gwerthu tocynnau ac am y rhoddion a'r gefnogaeth gafwyd gan yr ardal yn gyffredinol. Rhoddwyd y coffi gan Mrs N. Jones, Madryn; Mrs K. Griffith, 19 Glan Moelyn; Mrs E. Williams, 10 Glanmoelyn; Mrs N. Williams, Tremallt; Mrs J. Parry, Morannedd; Mrs M. Lewis, Madryn House; Mrs D. Jones, Y Fedwen a Mrs L. Jones 5 Rhos Rug. Gwnaed elw sylweddol.

CYNGOR EGLWYSI LLANRUG — Nos Fercher, Rhagfyr 6 cafwyd seiat yng Nghapel Bryngwyn. Y siaradwr oedd y Parch. W.O. Roberts, ar y testun 'Un Byd'. Diolchwyd iddo gan y Parch. D. Gwynfor Williams, a chafwyd gair gan Mr Glyn Owen a Mr T. Thomas. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Miss M. Humphreys, Cadnant a chyfeiliwyd gan Mr Gareth Roberts, Gregynog. Y llywydd oedd Mrs W.O. Roberts, Anedd Wen.

CYMDEITHAS LENYDDOL (Capel Mawr) — Agorwyd tymor y gymdeithas nos Wener, Rhagfyr 1 pryd y cafwyd sgwrs gan Mr. W. Ellis Owen, Bryn y Maen, a'i destun oedd 'O'r Mynydd i'r Môr'. Siaradwyd ymhellach gan Mr Geraint Huws-Roberts, Bangor (Park Villa gynt) a chafodd groeso calon yn ôl i'n plith gan y Parch. W.O. Roberts. Cafwyd gair hefyd gan Mr J. Wyn Owen. Diolchwyd gan Mr. J. Griffith Jones, Gorffwysfa a Mr Gwilym Owen, Glasgoed. Llywyddwyd gan y Parch. W.O. Roberts a chyfeiliwyd gan Mrs Lovatt, Brwynog.

LLYTHYR O BRUNEI — Derbyniodd y Parch. W.O. Roberts llythyr oddi wrth Mr Stanley Roberts, B.Sc. (Eryri gynt) sydd yn brifathro yn Brunei ers tro, gyda rhodd anrhydeddus iawn tuag at barti Nadolig y plant. Dymuna'r plant anfon eu cofion a'u diolch yn ddifffuant iawn iddo, ac edrychant ymlaen am ei weld pan ddaw adref am seibiant. Bydd parti Nadolig plant yr Ysgol Sul, nos Lun, Rhagfyr 18 am 5.30 p.m.

Y GOBEITHLU (Capel Mawr) — Caed cyfarfod canu a noson o ffilmiau ar neges y Nadolig. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Nia Wyn Jones, Y Wern, Linda Morris, Clydfan, Bethan Lewis Parry, Ael-y-Bryn a Gwawr Owen, 2 Rhos Elan. Yr oedd y canu dan ofal Mrs M. Jones, Ogwen; dangoswyd y ffilmiau gan Mrs W.O. Roberts a Mr John Williams, Gwledfa oedd yn gofalu am y taflunydd. Diweddwyd trwy gydnabod gweddi dan arweiniad y Parch. W.O. Roberts.

MARW — Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Elizabeth Jones, Egryn Villa a fu farw Tachwedd 30 yn 87 mlwydd oed. Cydymdeimlir â'i hunig ferch Mrs Betty Peris Jones a'r teulu yn eu profedigaeth.
SIOE ADAR — Enillydd yn Sioe Adar Penygroes: Mr Idwal G. Pugh, 14

Glanmoelyn, (Cwpan Arian Llys Eifion) am 'Best Champion Canary'. (Cwpan Traders Cup) 'Best Four Nominated Birds'.

Enillydd yn Sioe Pwllheli — C.B.S. — A.E. Pritchard, Pensarn (Cwpan Arian) 'Best U/Flighted Champion. Border. (Rose Bowl) 'Best U/Flighted Canary in Show'.

YSGOL FEITHRIN — Bydd Ysgol Feithrin Llanrug yn ailgychwyn ar Ionawr 5, 1979. Enwau'r plant i: Ann Llwyd Elis Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug neu Mrs Siân Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug erbyn Ionawr 10, os gwelwch yn dda.

NANT PERIS

CYFARCHION Y TYMOR — I blant y Nant sydd bellach wedi ymgartrefu ar hyd a lled y byd a chroeso i'r rhai ar ymweliad â'u tauluoedd yn ystod y gwyliu.

EISTEDDFOD — Llongyfarchiadau i'r plant fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod St. Padarn a St. Peris yn ddiweddar. Yn eu mysg, Jennifer, John a David Ellis a Llinos Haf Jones.

CAROLAU — Bydd Gwasanaeth o Garolau yn Rehoboth nos Sul, Rhagfyr 24 a hefyd Gwylnos yn Eglwys St. Peris. Croeso i bawb.

GWELLA — Croeso adref i Mrs Prydwen Pritchard, Llys Awel a fu yn yr ysbty am gyfnod. 'Rydym yn falch iawn ei bod wedi gwella.

CYDYMDEIMLAD — Cydymdeimlwn fel ardalwyr â Mrs B. Peris Jones (Gardda gynt) ar farwolaeth ei mam yn Llanrug. Bu Mrs E. Jones yn fawr ei pharch ac yn ffyddlon a gweithgar yn Rehoboth tra bu'n byw yma.

TAN-Y-COED

DAMWAIN — Daeth newydd trist i'r cylch fore Sul, Rhagfyr 10, sef bod Mr. Tom Ellis, mab y diweddar Mr Joseph Ellis a Mrs Ellis, 3 Bryngwyn Terrace wedi cael damwain tra'n teithio mewn modur i'w waith yn Nottingham. Aed â Mr Ellis i'r ysbty, a da deall ei fod yn gwella.

Y mae Mr. Michelle Blanchard yn Ysbty Môn ac Arfon, Bangor, ac wedi cael triniaeth lawfeddygol. Da deall ei fod yntau'n gwella ac yn disgwyl cael dod adref yn fuan.

Dymuniadau gorau i'r ddau.

TE PARTI — Pnawn Iau, Rhagfyr 21 bydd plant Ysgol Sul Tan-y-coed yn cael Te Parti. Disgwylir Siôn Corn, a dangosir ffilmiau. Y mae gwahoddiad i famau plant yr eglwys sydd dan oed Ysgol Sul i ddod â'r plant hyn hefyd.

Pnawn Sul, Rhagfyr 24 am 2 o'r gloch bydd Gwasanaeth y Plant yn Nghan-y-coed. Bydd holl blant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yn y gwasanaeth hwn. Croeso cynnes i bawb.

CATH DDUARHEBOL — Rhyfeddod y cylch yw campau cath fach ddu ychydig fisoedd oed. Tyfodd cyfeili-garwch cryf rhyngddi ag ebol mewn cae cyfagos. Bydd y gath fach yn dringo polyn lein ac aros i'r ebol ddod ati, yna neidio ar ei gefn a marchogaeth ymlaen hyd y cae. Bydd hyd yn oed yn aros ar gefn yr ebol tra bydd yn eistedd. Cewch weld ei llun yn y dyfodol.

Cefnogwch Ein Hysbysebwyrr

Dymuna
H.W.Owen
Dyn Glo a Chludwr

LLANRUG
Ffôn Caernarfon 4426

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



Gair byr ar drothwy'r Nadolig i ddymuno pob bendith ichwi dros yr Wyl. Diolch am eich cefnogaeth a'ch geiriau caredig dros y flwyddyn sydd ar fin dod i'w therfyn. Bydd saith deg naw yn flwyddyn ddiddorol hefo'r 'Steddfod yng Nghaernarfon, — gyda llaw, ydych chi'n dysgu nofio? Mi fydd hi'n dipyn o newid gweld yr Orsedd yn rhwyfo ei ffordd tua'r pafiliwn yn hytrach na dod mewn dybl decars.

Diolch yn fawr i chi Mrs Margaret Evans, Lloc, Ffordd Glanffynnon, Llanrug am ichwi anfon llythyr diddorol Elizabeth a Harri Lewis i mi. Cofiaf yn dda am y noson ddifyr a gefais yn eu cwmni yn Awstralia tua dwy flynedd yn ôl. Diolch am y llythyr Elizabeth, ac am gofio'n arbennig am y golofn hon. Ys gwn i a ddowch chi adre at 'Steddfod Caernarfon? Dyma ran o gynnwys llythyr Elizabeth a Harri at Mrs. Evans:

Carwn gymryd mantais i ddweud 'Diolch' wrth Mrs Enid Jones am y deyrnged a'r penillion a gyfansoddodd er cof am John H. Williams yn y rhifyn diwethaf. Medrodd Enid roi ar gân ddisgrifiad hynod fanwl o un oedd yn annwyl iawn i mi, ei nith. 'Roedd John yn frawd ieuengaf fy nhad, a'r olaf o'i deulu. Diolch Enid am rywbeth i'w gadw er cof am un gonest a diffuant.

Ar gais Selwyn Griffith yn Eco'r Wyddfa y mis diwethaf, anfonaf bennill Nadolig a gyfansoddwyd gan fy nhad dros 30 mlynedd yn ôl, pan oeddwn yn aelod o'r Band of Hope' yng nghapel Ebenezer Deiniolen. Er bod cymaint o amser wedi pasio, mae'r pennill yn aros ar fy nghof o hyd:

*N-am Nadolig, dydd geni ein Crist.
A-am yr Arglwydd groeshoeliwyd mor drist.*

*D-am Drugaredd ddangoswyd i'r tlawd
O-am Oleuni drwy aberth ein Brawd.
L-am Lawenydd bugeiliaid y fro.
I-am lachawdwr i'w gadw mewn co'.
G-am y Groes lle gogwyddodd Ei ben.
I gadw pechadur 'n oes oesoedd. Amen.*

*Anfonwn gyfarchion y tymor at lu o berthnasau a ffrindiau yn yr ardal, a dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco.
Yn ddiffuant,
Elizabeth a Harri Lewis
(gynt o Fryn Sardis, Dinorwig)*

Diolch i'r ddau hefyd am eu rhodd tuag at Gronfa'r Eco.

Diolch yn gynnes i Dilys Baylis hithau am ymateb i'm cais am gerdd 'nadoligaidd' ei naws.

Os yw 'Mary's Boy Child' (Jester Hairston) yn ail yn y siartiau yn barod y Nadolig yma gan y grŵp 'Boney M', beth am gyfieithiad Cymraeg?

BACHGENNYN MAIR

Ym Methlehem, ymhell yn ôl
Cans felly dwed y Gair,
A Mair a'r Baban yn ei chôi,
Bachgennyn Bethlehem.

Cytgan:

Clywch angylion glân yn canu
Anthem Brenin Nef
Mai bythol fywyd sydd i ddyn
'Rôl gweled Bethlehem.
Canu mawl wna engyl nefoedd
Clywch yr hyfryd sain
Mai bythol fywyd sydd i ddyn
'Rôl gweled Bethlehem.

Tra yno'n gwyllo'u praid liw nos
Disgleiriodd seren dlos,
Yn ddistaw ar awelon nef

Daeth neges Bethlehem.
Daeth Joseph yma gyda Mair
Yng nghanol tywyll nos,
Fe anwyd Baban yn y gwair
Ym mhreseb Bethlehem.

Cytgan

Dim llety iddo mewn un man,
Mewn preseb ganwyd Ef.
Nid oedd ond seren ar ei ran
I arwain dyn i'r nef.
Ym Methlehem ymhell yn ôl
Cans felly dwed y Gair,
A Mair a'r Baban yn ei chôi
Bachgennyn Bethlehem.

Cytgan -

MEDDYLIAU MAIR (Ar 'Troyte's Chant)

Sibryddodd Mair yn dawel, 'Dyma Ef,
Ganwyd Baban heddiw, etifedd Nef,
Disgwylais am ei ddyfod i achub dyn,
Dyma'r gwir Feseia, yr unig un.'

Sibryddodd Mair yn dawel 'Dyma'r Crist
Gorfoleddwn yma, na fyddwn drist;
Gwawriodd ein Nadolig llawenydd gwir
Aiff ei Gariad allan yn awr drwy'r tir.'

Sibryddodd Mair yn dawel 'Dyma'r Gair'
A sylodd arno'n dirion yn y gwair.
'Hwn sydd i arwain dynion trwy bob

loes,
Hwn hefyd rydd gryf ysgwydd dan bob croes.'

Sibryddodd Mair yn dawel 'Dyma'r
Graig,
Yn erbyn cryfder hon fe gwmp y ddraig.'

Hosanna, Haleliwia, dyma'r awr
Daeth Duw trwy Faban bychan yma i lawr.
Dilys Bayliss.

Ym Methlem Jiwea fe anwyd
Mewn preseb di-addurn a thlawd
Y baban anwylaf a welwyd
Y baban ddaeth imi yn Frawd.

Daeth engyl y nef i'w foliannu
A'r doethion a'u rhoddion mor ddrud,
Bugeiliaid y maes yn cyd-ganu
I'r Baban a anwyd heb grud.

Hwn ydoedd yn wir y Meseia
Anfonwyd i achub y byd;
O'i fodd daeth i faddau ein beiau
Mae'n barod i faddau o hyd.

Ni wyddai y byd y pryd hynny
Ei hynt, ei arteithiau a'i loes;
Y llwybr oedd wedi ei drefnu
O'r preseb i odre y Groes.

Boed iddo ein diolch tragwyddol,
Ein dyled sydd iddo mor fawr,
Am esgyn i'r nefoedd i eiriol
Dros wael bechaduriaid y llawr.

Y diweddar Robert Hugh Roberts,
13 Rhos Rug,
Llanrug.
(Anfonwyd gan Mrs. Sarah Roberts)

Clywais amryw o sibrydion fod darllenwyr y golofn hon yn awyddus iawn i gael cystadleuaeth llinell goll unwaith eto. Wel, rhagorol! Dydi pobl ddim mor swil i gynnig llunio llinell goll ag ydynt i anfon cerdd i'r golofn. Beth am ymdrech i orffen y pennill hwn ar ôl eich cinio

'Dolig!

Prif ddymuniad Modryb Mari
Yw cael gwyliau yn Hawaii,
Ond dymuniad Huws y Person

Beth am gael cerdd at y flwyddyn newydd hefyd. Testun: Datganoli. Cystadleuaeth i'r plant, — cerdd: Eira.

Diolch unwaith eto, a Nadolig Llawen a hwyl fawr dros yr Wyl, yn enwedig i chi'r plant.

Selwyn.

Eich Hawliau

gan Berwyn Hughes

NWYDDAU TRYDAN

NEWYDDION DA!

Y mae dau fudiad mawr yn ceisio sicrhau gwasanaeth cyflym a chymwys i chwi pan fo unrhyw un o'r dyfeisiadau trydan a ddefnyddir yn y cartref — megis golchi, tro-sychydd, rhewgell neu stof — angen ei atgyweirio.

Beth yn union sydd wedi digwydd?

Y mae AMDEA (Association of Manufacturers of Domestic Electrical Appliances), sydd yn cynrychioli'r mwyafrif o gynhyrchwyr Prydeinig, a'r Cyngor Trydan (ar ran y byrddau trydan a'u siopau) wedi cynhyrchu safonau masnach — llyfryn sydd yn penderfynu pa safonau y dylai'r cyhoedd eu derbyn gan eu haelodau a'u gwerthwyr.

Tebyg iawn yw safonau'r ddau fudiad:

* Pan fo'n ffonio neu'n ysgrifennu i ofyn am gymorth, dylai peirianydd gynnig galw, fel rheol, o fewn 3 i 5 diwrnod gwaith.

* Yn y rhan fwyaf o achosion, dylid cwblhau'r gwaith ar y diwrnod cyntaf y daw'r peiriannydd. Os yw'r peiriant angen triniaeth ychwanegol, dylid ei gwblhau o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl yr ymweliad cyntaf.

* Dylid cyflogi mwy o weithwyr wedi eu hyfforddi'n arbennig i ymdrin â'r galwadau yn gyflym ac effeithiol. Gwneir pob ymdrech i gadw at yr amser neu'r diwrnod a benodir i ymdrin â'r gwaith, ond os yw hyn yn amhosib dylid eich hysbysu a phenderfynu ar amser arall.

* Dylid gwarantu pob cyweiriad a delir amdano.

* Dylid bod digon o rannau ar gael bob amser, a hefyd am gyfnod wedi i fodel neilltuol gael ei dynnu oddi ar y farchnad — am gyfnod o 5 i 8 mlynedd i rywbeth fel sychwr gwallt, 8 mlynedd i rywbeth fel rhewgell, ac i fyny i 10 mlynedd i rywbeth fel stof, ar wahân i rannau na thybir eu bod yn angenrheidiol, neu'n addurniadol.


Beth am gwynion?

Mae yna ddau ddull:

1) AMEDEA (Association of Manufacturers of Domestic Electrical Appliances)

Mae'n debyg yr arbedir unrhyw ddyfais drydan Brydeinig a brynwch gan safonau AMDEA. Lle mae gan rai cynhyrchwyr eu gwasanaethau eu hunain, mae rhai eraill yn penodi gwasanaethwyr

£5 Os Ffendiwo



arbennig — gall y rhain fod y siopau lle gwerthir y nwyddau.

Fel rheol, mae cyfeiriad y gwasanaethau ar y cyfarwyddiadau neu'r cerdyn gwarant, neu o leiaf cewch restr o wasanaethwyr drwy adael i'ch bysedd gerdded trwy'r *Yellow Pages!*

Petaech yn anfodlon ar waith cynhyrchwr neu wasanaethwr, ac wedi methu cyrraedd cytundeb â hwy, dylech gysylltu â'r Adran Safonau Masnach neu'r C.A.B. (Citizen's Advice Bureau).

2) Byrddau Trydan

Petaech am gwyno am waith anfodddhaol a wnaethpwyd ar ryw declyn — Prydeinig neu estronol — a brynwyd o siop fwrdd trydan, dechreuwch gyda rheolwr y siop, ac, os ydych yn dal yn anfodlon, ymlaen at reolwr lleol y bwrdd. Mesur pellach yw cysylltu â'ch Cyngor Trydan Ymgynghorol lleol. Mae cyfeiriadau'r bwrdd lleol a'r cyngor ymgynghorol i'w cael yn y llyfr ffôn.

Ond cofiwch...

1) Peidiwch â gwastraffu amser y

Anrhegion Nadolig
Newydd Sbon o'r Lolfa...



Y GAMP LAWN £1.75

Tim rygbi gorau Cymru — cyfweiliadau, adroddiadau, ystadegau, dwsinau o luniau — gan R. Gerallt Jones, Huw Llewelyn Davies a Carwyn James.

MYNYDDA gan lolo ap Gwynn £1.45

Cyflwyniad difyr, bywiog i reolau sylfaenol mynydda gyda ffotograffau, diagrammau, cartwnau, a mapiau o'r prif deithiau yng Nghymru.

Ac yng Nghyfes Y Llewod gan Dafydd Parri — yr anturiaethau gorau eto:
17. Y Llewod a'r Trên Sgrech 85c
18. Y Llewod yn Dilyn y Sêr 85c

HEFYD, ie, mae yn ôl!!! —
LOL 20c Y rhifyn mwyaf enllibus erioed!

Rhestr gyflawn yn ein catalog rhad

Y Lolfa

TALYBONT CEREDIGION SY24 5ER ffôn 304

h Pwy Ydy Nhw!



gwasanaethau — darllenwch yn ofalus y cyfarwyddiadau ar unrhyw declyn a brynwch.

2) Mac gwasanaeth yn gallu bod yn ddrud — y rhan fwyaf o ymweliadau yn £7-£8, ac mae llawer o gwmnïau yn codi lleiafswm am alwad. Felly, gofynnwch am amcangyfrifiad o'r gost cyn derbyn y gwasanaeth.

3) Byddwch yn ofalus i lenwi a gyrru unrhyw gerdyn gwarant, a chadwch eich rhan chwi o'r cerdyn — gall fod o ddefnydd petai problem yn codi.

4) Cofiwch mai bonws ychwanegol yw gwarant — ac er mai'r gwneuthurwr neu'r gwasanaethwr sydd yn atgyweirio'r peiriant, y gwerthwr sydd yn gyfrifol o dan y gyfraith am dalu'r oll neu o leiaf rhan, o'ch arian yn ôl.

Felly, pa beth bynnag yw'r trefniadau rhyngoch chwi a'r gwasanaethwr neu'r gwneuthurwr, byddwch yn siŵr o adael i'r gwerthwr wybod os yw'r ddyfais yn anfodhaol.

Mae 4 o enwogion y fro yn llechu tu ôl i'r lluniau yma. Maent â chysylltiad â'r fro ac yn adnabyddus trwy Gymru gyfan ond nid fel ag y maent yn y lluniau. Enwch nhw, a gyrru'r rhestr i'r Golygydd Erthyglau, Eco'r Wyddfa, Gwên-y-Wawr, Llanrug erbyn Ionawr 17 ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad. Y rhestr gywir gyntaf a dynnir o het fydd yn ennill. Hwyl gyda'r dyfalu.

Arfryn,
Ffordd Eryri,
Bro Castell,
Caernarfon.

Annwyl Olygydd,

Dymunaf eich llongyfarch ar lwyddiant y Papur Bro Eco'r Wyddfa. Y mae ei gynnwys yn neilltuoel o ddiddorol i bawb a chysylltiadau â Llanberis a'r cylch. Y mae'r hanes am Gynllun Trydan Dŵr Dinorwig yn dderbyniol iawn, a'r darluniau yn rhagorol. Syndod fodd bynnag oedd gweld yn eich ysgrif 'Llyn Peris yn gwagio' y frawddeg hon: 'Daethpwyd o hyd i'r bomiau mewn dŵr bas yng ngheg afon Bala' gan nad oes y fath afon yn bod.

Ystyr y gair 'Bala' yw man cyfarfod dau llyn. Mynegir yr ystyr yn glir yn yr enw 'Baladeulyn' yn Nantlle. Cysylltir Llyn Peris â Llyn Padarn, sydd mor agos i'w gilydd, gan yr afon Seiont, a thros honno yr adeiladwyd Pont y Bala. Yr argraff sydd gennyf yw fod yr afon Seiont yn rhedeg drwy Llyn Peris ac ymlaen trwy Llyn Padarn ar ei thaith i'r môr yng Nghaernarfon. Hyd yn hyn y mae'n dal i lifo'n rymus dan Bont y Saint (sef Pont Seiont i fod yn gywir) i mewn i'r bae fel arfer, beth bynnag sy'n digwydd yng nghyffiniau ei tharddle yn Eryri.

Cofion gorau,
J.D. Roberts.

Diolch i'r Parch. J.D. Roberts am ei ymateb i'r erthygl. Mynegi yr oeddwn wrth gyfeirio at afon Bala yr hyn sydd i'w gael ar dafod leferydd yng nghylch Llanberis. Cyfeirir ati gan lawer un o'r pentref fel 'afon Bala' neu'r 'afon rhwng dau llyn'. Efallai mai'r brif lythyren yw'r camgymeriad.

— Gol.

ANRHEG NADOLIG
I'R TEULU CYFAN!

NADOLIG PLENTYN YNG
NGHYMRU — Dylan Thomas
Trosiad gan Bryan Martin
Davies. Lluniau Edward
Ardizzone. Gwasg Gomer,
clawr caled. £2.50.

Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, BEM

FEL yr addewais, dyma ragor o fanylion am Marged Uch Ifan. Cefais yr hanesion o nodiadau fy niweddar dad, Glan Rhyddallt yn *Yr Herald Gymraeg* 19/2/40.

Chwi gofiwch i mi roddi ychydig o hanes sut y cafodd fy nhad wybod ymhle yr oedd bedd Marged Uch Ifan, Penllyn, ger Brynrefail: hefyd gofnodion am ei bedyddio, ei phriodi a'i chladdu, hanes oedd yn hollol newydd gan nad oedd neb o'r blaen wedi olrhain yr hanes, yn ôl barn fy nhad.

Y peth nesaf oedd ceisio dyfalu sut y cludwyd hi yn ei harch o Benllyn i Nant Peris i'w chladdu, oherwydd nad oedd ond llwybr ysgythrog rhwng y ddau le yn yr amser hwnnw: ymhen dros ddeugain mlynedd wedi claddu Marged y gwnaed y ffordd o Benllyn i Nant Peris, gyda glannau'r llynnoedd, meddir.

Bu fy nhad yn meddwl unwaith efallai fod arch Marged wedi cael ei chludo mewn cwch dros y ddau llyn. Nid oes hanes i hynny ddigwydd erioed, felly go brin i arch Marged gael ei chludo mewn cwch.

Wedi chwilota a darllen daeth fy nhad ar draws hanes cynhebrwng geneth fach saith mlwydd oed o gymdogaeth Brynrefail, fel y credai ef, a chafodd ddisgrifiad o'r dull y cludwyd ei harch i Nant Peris ar hyd y llwybr ysgythrog gyda glannau'r ddau llyn. Sais o'r enw Bingley oedd yn dweud yr hanes oherwydd yr oedd ef yn llygad-dyst o'r amgylchiad. Meddai Bingley: "Yn ystod fy arhosiad yn sir Gaernarfon, euthum un diwrnod am dro gyda Rheithor Llanberis, gan farchogaeth i gynhebrwng geneth fach oddeutu saith mlwydd oed. Yr oedd ei rhieni yn byw ym mhlwyf Llanddeiniolen, rhyw bum milltir o Nant Peris.

Cariwyd yr arch ar elor gan bedwar o ddynion. Yr oedd oddeutu cant o bobl yn cychwyn y cynhebrwng. Fel yr oedd yr oymdaith yn teithio ymlaen ymunai rhagor o wŷr, gwragedd a phlant. Yr oedd rhai yn marchogaeth a rhai eraill yn cerdded. Rhaid oedd esgyn llethrau anhygyrch, a hynny gan troedfedd uwchlaw llyn Llanberis. Wedi cyrraedd Nant Peris yr oedd yr Eglwys yn llawn o bobl yn eu disgwyl. Darllenwyd y Gwasanaeth yn Gymraeg. Yr oedd yr offrwym yn yr Eglwys yn ddwy bunt. Taenwyd cowlaid o frwyn a gwellt dros yr arch yng ngwaelod y bedd. Wedi cau'r bedd gyda phridd, plannwyd cangen o bren boc ac ychydig fytholwyrdd arall arno."

Y mae hanes cynhebrwng yr eneth fach yn rhoddi llawer o eglurhad ar bethau perthynol i drefn angladdau yr oes honno. A hawdd ydyw credu mai cynhebrwng tebyg iddo oedd cynhebrwng Marged Uch Ifan.

Wrth gwrs, lle y byddai ffordd, byddent yn cario'r arch mewn

hers. Rhaid ei bod yn orchwyl galed iawn ar bob tywydd i gludo arch ar ysgwyddau pedwar o ddynion dros y creigiau. Digwyddodd cynhebrwng Marged ym mis Chwefror.

Gorchestion Marged Uch Ifan

Dywedir mai tafarn y Telyrni yn agos i Ddrws y Coed oedd cartref Marged. Dywedir bod Marged yn gallu canu'r delyn i ddifyrru'r cwsmeiriaid, a diau mai mwynwyr o'r gwaith copr, oedd gynt yn nhueddau Beddgelert, a fyddai'n mynychu tafarn y Telyrni. Efallai mai felly y gwelodd Richard Morris hi y tro cyntaf, ac iddo gael croeso mawr am ei fod yn gallu canu'r delyn fel hithau. Byddai telynorion y wlad yn gwybod am ei gilydd ymhell ac agos. Hawdd deall sut y gwnaed cymaint o benillion telyn i 'Marged Fwyn Uch Ifan'.

Dywed Pennant mai dyn bychan o gorff oedd Richard Morris, gŵr Marged. 'Queen of the Lakes' y galwai Pennant hi.

Dywedir y gallai wneud telyn a'i chanu. Dywedir hefyd y gallai wneud pedol ceffyl a'i gosod a gwneud pâr o esgidiau iddi ei hun. Os yw hyn yn wir, yr oedd yn wraig hynod. Ni welwyd ei thebyg erioed. Gallai rwyfo cwch, a dal llwynogod gyda'i chŵn.

Penllyn

Tŷ bach to gwellt oedd tŷ Marged, meddai William Hutton, a'i safle yng nghysgod y graig yn agos i ben gogleddol Llyn Padarn.

Ymwelai pob teithiwr â thŷ Marged a buan yr aeth y sôn fod Marged yn ddynes o alluoedd anghyffredin, a bod ganddi nerth corfforol mawr, a thalent gerddorol, ynghyd â medr i ganu offerynnau megis telyn a ffidl.

Dywedir bod gan Marged lyfr trwchus o hen gerddi ac alawon. Cafodd Dafydd Jones, Trefriw ei fenthg pan oedd yn casglu cerddi at wneud 'Blodeugerdd y Cymry'. Ond wŷr neb beth ddaeth o'r hen lyfr wedi hynny, meddir.

Chwilota am y gwirionedd yr ydym ar ôl i gannoedd o flynyddoedd basio.

Os oes gan rywun wybodaeth ychwanegol am Marged Uch Ifan mi hoffwn eu cael. Diolch. Dyma fy nghyfeiriad: Llys Awen, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd.

HANES MALAN JONES

Yn y flwyddyn 1926 yr aeth y Dr. William Gray Hughes i ffwrdd o'r Waunfawr, ac nid 1956.

Ymddiheuraf am y camgymeriad.

Yr eiddoch yn gywir,
Miss C.J. Roberts,
Fron,
Llanrug.

E & E. M. GREEN

STOP
GRON

PENISARWAUN

Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres
Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda

BARGEINION

SPAR



Cyfarchion

— BETHEL WAUNFAWR a'r FELINHELI —



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ICHWI OLL oddi wrth

JOHN & MAUREEN HANLON a'r Staff

**SNOWDONIA
PARK
HOTEL**

Waunfawr


FFÔN: 218

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN YSTOD 1978



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

**MODURDY
MENAI**



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

**T.A.Thomas
Ltd.**

(ADEILADWYR)

OFFER TŶ A GARDD

"TŶ NEWYDD"
WAUNFAWR

Hefyd
Bwydydd, Melysion
a Phapurau Newydd

Ffôn: Waunfawr 276

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid
oddi wrth

E. A. & W. WALTER

**Llythyrdy
WAUNFAWR**

Bwydydd, Ffrwythau,
Papurau newydd a
Llysiau Ffres

Ffôn: Waunfawr 221

PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Agricultural Engineering)

Owen Owen

Ffôn: WAUNFAWR 253



- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda !

Cyfarchion yr Ŵyl
oddi wrth
JONES & OWEN



Bara Cartra
Brown, gwyn a brith
Pastai a theisennau
O'r popty ddaw yn syth
Ffôn: Waunfawr 239

NADOLIG LLAWEN
a BLWYDDYN NEWYDD
DDA
oddi wrth bawb
ym



BYSIAU I'W LLOGI

Ffôn: Waunfawr 226

EVAN DAVIES

Gwerthwr Glo



Ffôn: WAUNFAWR 341

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD GYNNES
I'N CWSMERIAID I GYD !

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH

Modurdy


PANT WAUN

WAUNFAWR

(JOHN FERRAREZE)

GWASANAETH TORRI-LAWR A THRWSIO CEIR
PROFION M.O.T.
TRIN PANELAU ac ati

Ffôn: WAUNFAWR 524
- Hefyd CAERNARFON 5214
pan fydd y modurdy ar gau



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD
DDA

i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll
oddi wrth

MEIRWEN A GWILYM WYN JONES

SWYDDFA'R POST

BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670 261

BWYDYDD, MELYSION, PAPURAU NEWYDD

NADOLIG LLAWEN
a BLWYDDYN
NEWYDD DDA

oddi wrth

**Sam
a Margaret
Jones**

CEFN FARM
LLANDDEINIOLEN

Ffôn:

Y Felinheli 670282

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA

oddi wrth

M. WILLIAMS

**BRYN
DAIRY
Saron
Bethel**

Ffôn: Y Felinheli 670 417

Cyflenwyr Llefrieth,
Hufen ac Wyau
ym Methel, Caernarfon
a Chaeathro

TAFARN GORS BACH

LLANDDEINIOLEN

Dymuna

Bob, Mair a'r staff

i'w holl gyfeillion a chwsmeriaid,
hen a newydd

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD RAGOROL



CYFARCHION Y TYMOR

a
DYMUNIADAU GORAU AM 1978
oddi wrth

**WILL a VAL GUY
TREFLYN STORES
BETHEL**

Bwydydd, Melysion, Teganau a Diodydd ar gyfer y Nadolig
Y FELINHELI 670 237

**Blwyddyn Newydd—Car Newydd
1979**



NADOLIG
LLAWEN A
BLWYDDYN
NEWYDD DDA
I CHWI OLL

**LLE
ARALL
OND...**

T.R. & S. EVANS

GAREJ MINFFORDD BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670 451

PENISARWAUN

YR YSGOL GYNRADD — Gwnaed elw o £150 yn y Noson Goffi a gynhaliwyd ddiwedd Tachwedd. Yn ogystal gwnaed £30 ar y stondin lle gwerthid nwyddau tuag at Ysgol Arbennig Pendalar. Dymuna'r prifathro ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Erbyn ymddangosiad y rhifyn hwn bydd plant y ddau ddosbarth hynaf wedi bod yn gweld y pantomeim Elibabi yn Theatr Gwynedd.

Cynhelir Cyngerdd Nadolig yn yr ysgol, cyn cau dros yr Wyl, fel rhan o'r dathliadau Nadolig.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Sefydliad yn yr ysgol nos Fawrth, Tachwedd 28. Llwyddwyd gan Mrs Ann Jones. Croesawyd Mrs Treen o Gaernarfon fel V.C.O. Cafwyd braslun o'r hyn a ddigwyddodd ar hyd y flwyddyn gan yr ysgrifennydd, Mrs Margaret Williams a darllenwyd y fantolen gan Mrs Percy Williams, y trysorydd. Y swyddogion a ddewiswyd am y flwyddyn yw: Llywydd: Mrs Glenys Williams; Is-ysgrifennydd Mrs Margaret Williams a Mrs Ann Jones yn drysorydd. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith ar hyd y flwyddyn. Enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Williams.

DYMUNIADAU GORAU — i Mrs Naylor sydd yn ysbyty Eryri Caernarfon.

EGLWYS ST. HELEN (Gwasanaeth Sefydliad) — Nos Wener, Rhagfyr 8 aeth

rhaf o aelodau a ffrindiau i Wasanaeth Sefydliad Parchedig Geraint W. Edwards yng Nghemaes, Sir Fôn. Cyflwynwyd anrheg ar ran yr eglwys a dymunwyd yn dda i'r Ficer a Mrs Edwards yn eu plwyf newydd, gan Mr Tegid Roberts, Warden y Bobl.

CYFLWYNO ANRHEG — Bore Sul y 3ydd o Ragfyr cyflwynodd Mrs M.J. M.J. Roberts, Tai Croeson rodd ar ran Undeb y Mamau i Mrs Edwards

CYDYMDEIMLAD — Cydymdeimlwyd â Mrs Jones, 5 Llys y Gwynt yn ei phroffedigaeth yn ddiweddar.

DIOLCHIAU — I'r merched a fu yn glanhau'r eglwys; i'r rhai a roddodd flodau ar yr allor trwy'r flwyddyn; i Mrs F. Roberts a Mr. B. Griffith am drefnu'r nosweithiau Gyfa Chwist; hefyd i'r rhai a fu'n helpu gyda'r lluniaeth.

DOSBARTH CYMRAEG — Bydd y dosbarth yn dirwyn i ben ar nos Wener, Rhagfyr 15; ailddechreuir ym mis Ionawr wedi'r gwyliau a bydd croeso i aelodau newydd.

MRS ARTHUR ELLIS (Weirglodd Goch) — Yr oedd yn ddrwg gennym glywed am anhwylder Mrs Arthur Ellis. Dymunwn wellhad buan i chi Mrs Ellis wedi eich triniaeth lawfeddygol mewn ysbyty yn y Rhyl.

PARTI'R HEULWEN — Ar eu hymadawiad o'r ardal rhoddwyd anrheg i'r Ficer, y Parchedig Geraint Edwards a'i wraig gan y Parti ynghyd â Mr Turn-

bull a'r Misses A. ac M. Williams, (Stryd Dinorwig, Caernarfon).

NAID O 2500 TROEDFEDD — Enillodd Bronwen R. Hughes, dystysgrif Hereford Parachute Club am naid-barasiwt o 2500 troedfedd. Llwyddodd yn Shobdon ger Hereford ar Hydref 28. Llongyfarchiadau iddi mae'n sicr mai Bronwen yw'r cyntaf yn y fro i ennill y dystysgrif hon.

GWAITH CYNGOR — (Tai Henoed Brynrefail) — Mae'n dda gan y Cyngorydd Pat Larsen ddweud bod Cyngor Arfon wedi cytuno i godi pedwar o dai i'r henoed ym Mrynrefail. Gobeithir bydd y tai yng nghanol y pentref.

CANOLFAN YR HENOED — Yn niwedd 1977 dechreuodd y Cyngorydd Pat Larsen ohebu a'r awdurdodau ynghylch darpariaeth i'r henoed yn ardal Deiniolen/Llanrug ac erbyn hyn mae Cyngor Gwynedd wedi pasio i ddarparu Gofal Dydd a gwasanaeth Prydau Parod i ardal Llanrug cyn gynted ag y bydd arian ar gael, ac yn y cyfamser rhoir hawl i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol chwilio am adeiladau neu safleoedd addas yn y cylch.

PWYLLGOR YR EISTEDDFOD — Mae'r pwyllgor wedi casglu tua £850 hyd yma. Diolch yn fawr i chwi am

eich cefnogaeth. Cofiwch mai £1,100 yw nod y pentref.

DIOLCH — Trefnodd Mrs Ann Pattinson, Ancrum (Tŷ'r Ysgol) barti Tupperware yn ddiweddar a chafodd wobwr gan y cwmni am ei llafur. Mae Mrs Pattinson wedi bod mor garedig â chyflwyno ei gwobr i Bwyllgor yr Eisteddfod. Diolch yn fawr iawn.

Trefnodd Mrs Ann Evans, Sycharth, Bryn Eglwys barti Avon yn ddiweddar ac mae'r pwyllgor yn hynod o ddiolchgar i Ann am gynnig elw'r noson i chwyddo coffrau'r Eisteddfod. Diolch yn fawr, Ann.

Yn ôl ein Trysorydd, Mrs Eluned Jones, mae tua £45 o elw'r daith gerdded wedi dod i law hyd yma, ond mae nifer o'r cerddwyr heb orffen eu gwaith casglu eto. Diolch yn fawr iawn am nodd i'r dewrion, a diolch yn arbennig iddynt hwythau am fentro. Dyma'u henwau: Carys Williams, Gareth Fleming, Eurgain Roberts, Bethan Jones, Delyth Roberts, Marie Griffiths, Sharon Green, Karen Wyn Jones, Sandra Jones, Catrin Evans, Miss Price, Mrs E. Jones, Mr Len Jones a Mr Leslie Larsen. Diolch yn arbennig unwaith yn rhagor i Mr Tegid Roberts, Arwel am ei waith caled yn paratoi'r daith.

Bydd y Noson Wasael yn cael ei chynnal eleni yn yr Ysgol Gynradd nos Iau, Rhagfyr 21, gyda Pharti Merched y Wawr, Llanrug yn canu.

LLYTHYRAU

CAIS AM HANES RHEILFFYRDD

Annwyl Syr,

Yr wyf wrthi ar hyn o bryd yn hel pethau at ei gilydd ar gyfer llyfr yn cynnwys lluniau a dogfennau sy'n ymdrin â rheilffyrdd yng Ngwynedd, i'w gyhoeddi gan Wasanaeth Archifau'r Cyngor Sir. Byddwn yn dra diolchgar i chwi am gyfle i apelio at eich darllenwyr am ddeunydd, er mwyn gallu sicrhau dewis eang o luniau.

Mae'n debyg fod yna ddigonedd o luniau, taflenni, amserlenni ac ati, mewn dwylo preifat, a hoffwn yn fawr glywed oddi wrth unrhyw un o'ch darllenwyr sy'n fodlon rhoi benthyc deunydd i mi ei gopio.

Gellid tefnu casglu a dychwelyd y deunydd, a chydabyddir unrhyw fenthyciadau parhaol o ddeunydd; ond byddai benthyciadau am ychydig o wythnosau'n llawn mor dderbyniol.

Mae gennyf ddiddordeb mewn lluniau yn ymwneud â gorsafoedd, staff y rheilffyrdd, signalau ac ati, yn ogystal a lluniau o drenau. Gall unrhyw un sydd am fy helpu ddod i gysylltiad â mi trwy ffonio Caernarfon 4121 (est. 235), neu drwy anfon at y Gwasanaeth Archifau, Swyddfa'r Sir,

Caernarfon.

Yn gywir iawn,
G. Haulfryn Williams.

259 Magog St.,
La Salle,
Quebec
Canada.

Annwyl Syr,

Diddorol oedd darllen yn 'Eco'r Wyddfa' rhif Tachwedd 1978 parthed beddau y milwyr o frwydr Gwaun Gynfi. Pleser oedd gweld bod y llythyr o dan law fy hen, hen gyfaill y Parch. Herbert Thomas, Llannor, oherwydd tua man y beddau bu iddo ef a minnau chwarae pel oriau fil, a ni fu sôn unwaith am y beddau.

Cofiaf amser agor ffordd Tutankhamen tua 1922. Ni wyddwn ddim am hanes y beddau ger Tŷ Powdwr, ond o'i gweld yr oedd fy mrawd Dewi a minnau yn saff mai beddau a oedd yno. Buom ill dau yn cloddio am amser ond 'doedd yno ddim aur na milwr. Mae H. Thomas yn iawn yn ddios — traeniai sychu tir sydd yno. Efallai bod talp o dir ar un bedd, sef awaith dau frawd ar ôl siom. Nia oedd yno aur, nid oedd awydd cau y bedd.

J.E.D.

LLEW LLWYFO

Mae Hywel Gwynfryn yn holi am wybodaeth am Llew Llwyfo, a fu'n byw gyda Mr a Mrs Hugh Williams yn Nhyddyn Rhuddallt am gyfnod tra'r oedd yn Swyddfa'r Herald yng Nghaernarfon. Y mae gan Iorwerth a Budi g Williams beth o'i hanes, gan

iddo fod yn dysgu eu tad Hugh Pierce Williams i adrodd, a byddai'n enillydd yn eisteddfodau'r cylch. Bu'r ddiweddar Mrs Roberts, Glanmoelyn, mam Miss Robert, Y Fron yn ddisgybl iddo hefyd.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



NADOLIG LLAWEN

A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr yr ECO



BRYSIWCH I GAEL EICH

Teganau

YN SIGR

E.WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS

FFÔN
491

BETHEL



Aelodau o Dîm Gwyddbwyll Ysgol Bethel yn ymarfer yn ystod eu hawr ginio.

LLONGYFARCHIADAU — I Gwyn Jones, Trigfa, Erw Bian, ar el lwyddiant yn ei arholiadau yn yr ysgol. Enillodd Gwyn wobwr am gael wyth gradd cyntaf ar ei dystysgrif T.A.U.

Mae Gwyn ar hyn o bryd yng nghanolfan dysgu M.A.N.W.E.B. yn Hoylelake.

YR URDD — Nos Fercher, Rhagfyr 6 cafwyd Disgo llwyddiannus i blant yr Urdd gyda phawb yn mwynhau eu hunain.

Nos Fercher, Ionawr 3 bydd 112 o aelodau'r Urdd a rhai rhieni yn mynd i Theatr Gwynedd i weld y pantomeim Elibabi. Bydd un bws yn cychwyn o Minffordd a'r llall yn cychwyn o Cremlyn am chwarter i saith.

GWASANAETH Y PLANT — Pryn-hawn Sul Rhagfyr 24 bydd plant Ysgol Sul y Cysegr yn cynnal gwasanaeth Nadolig. Mae'r plant wedi bod yn brysur yn yr Ysgol Sul a'r Gobeithlu yn ymarfer ac edrychir ymlaen at eu cyfraniad o'r ieuengaf i'r hynaf.

CARNIFAL — Bellach cynhaliwyd dau gyfarfod o bwyllgor y Carnifal a sefydlwyd yn ddiweddar ac mae trefniadau ar y gweill i gynnal wythnos o ŵyl a fydd yn deilwng o'r pentref yn yr haf. Swyddogion y pwyllgor yw Cadeirydd: Mr Geraint Elis, Sycharth; Is-gadeirydd: Mr Sam Jones, Cefn; Ysgrifennydd: Mrs Nan Owen, Berwyn; Is-ysgrifennydd: Mrs Margaret Hughes, Snowdonia; Trysorydd: Mr Albert Hughes, 34 Bro Rhos.

CLWB Y RHOS — Nos Lun, Rhagfyr 11 cafwyd noson ddifur o ffilmiau gan Mr Brian Williams, Llys Gwynt. Dangosodd ffilmiau a dynnodd pan yn gweithio yn y Dwyrain Pell a hefyd lluniau o deithiau dyn i'r gofod. Diolchwyd i Mr Williams gan Mr Owain Bebb.

Penderfynwyd cael cinio ddechrau'r flwyddyn pryd y rhoir gwahoddiad i'r gwagedd.

CLWB 100 — Tynnwyd gwobrau y Clwb Cant yng nghyfarfod Merched y Wawr yn yr Ysgol nos Fercher, Rhagfyr 13. Y gwobrau oedd (1) £20: Mrs Harrison, Bakita; (2) £10: Mr Jack Foulkes, Tyddyn Gwndwn; (3) £5: Mr Emyr Price, 5 Tan y Ffordd a Mr Brian Williams, Llys Gwynt.

MERCHED Y WAWR — Nos Fercher, Rhagfyr 13 cafwyd noson lwyddiannus iawn yng nghwmni cangen Penrhos, Bangor. Cafwyd eitemau amrywiol gan aelodau o'r ddwy gangen a swper wedi ei drefnu gan bwyllgor cangen Bethel. Mrs Evans, Parclau Rhos a enillodd y

fasged fwyd oedd ar raffl.

YR YSGOL — Anfonodd yr ysgol sic o £30 i'r National Childrens' Home yn ddiweddar. Casglwyd yr arian gan blant dosbarthiadau 1, 2, 3 a 4.

YR URDD — Derbyniodd yr Urdd rodd o £10 gan Glwb y Mamau, Bethel yr wythnos ddiwethaf. Mae'r Urdd yn ddiolchgar iawn i'r Clwb am gofio amdanynt a bydd y rhodd yn help i dalu am y bws i fynd â'r plant i'r pantomeim.

CLWB Y MAMAU — Nos Fercher, Tachwedd 22 croesawyd Mrs Mair Jones, Glan Gors, Bethel. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddi ar Goginio ar gyfer y Nadolig. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Megan Humphreys, Is Elen. Y gwestwragedd oedd Mrs Medwen Green, 1 Cora Lin, Mrs Elizabeth Williams a Mrs Delyth Williams, Stad y Ddôl.

Bu'r aelodau yn brysur iawn yn ystod y mis yn dosbarthu anrhegion i bensiynwyr yr ardal, a hefyd rhai o drigolion hynaf y pentref sydd mewn cartrefi henoed ac ysbytai. Cawsant groeso mawr ym mhobman. Dymunant ddiolch i bawb am bob cymorth i godi arian i brynu'r anrhegion.

Mewn ymateb i'r ddelseb a fu o amgylch y pentref yn ystod y mis, derbyniodd Mrs. Evans y flwydd lythyr gan Mr Myer, Prif Swyddog Heddlu Gwynedd yn sicrhau y bydd plismon lleol ar ein cyfer yn byw yng Ngorsaf yr Heddlu ddechrau'r flwyddyn.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Ionawr 24. Bydd cwis yng ngofal Mrs M. G. Williams, Gwylfa. Estynnir gwahoddiad i Sefydliad y Merched a Merched y Wawr.

Derbyniodd plant St. Ioan £10 gan aelodau Clwb y Mamau tuag at eu parti Nadolig; hefyd Aelwyd yr Urdd yr un modd i'w cronfa hwy.

CEUNANT

PROFEDIGAETH — Drwg gennym gofnodi marwolaeth sydyn Mrs J. Jones, Tan-y-ffordd gynt, ddydd Llun, Rhagfyr 11 ym Mryn Glas, cartref ei brawd a'i chwaer Robert a Mary Pierce. Ymfudodd Mrs Jones i Awstralia rai blyneddoddi yn ôl gyda rhai o'i phlant. Dychwelodd y mis diwethaf gan fwriadu ymgartrefu yn ôl yng Nghymru. Daeth ei merch ieuengaf a'i gwr Mr a Mrs Peters a'u plant o Awstralia gyda hi. Maent hwy yn bwriadu ymgartrefu yn Wrecsam. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

WAUNFAWR

Y GYMDEITHAS LENYDDOL

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf nos Lun, Rhagfyr 4 gyda Mr Rol Williams yn llywyddu. Llywydd swyddogol y noson oedd Mr R. Gwynn Davies a fethodd, oherwydd galwadau ei waith, â bod yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod ond llwyddodd i gyrraedd mewn pryd i glywed y rhan fwyaf o ddarlith Mrs Gweneirys Jones. Y testun hudolus a ddewisodd Mrs Jones ar ei darlith oedd 'Pan Ddaw Clanme' — 'Y flwyddyn mewn rhigymau'. Trwy gyfrwng ugeiniau o hen rigymau rhoddodd ddarlun byw iawn o brif ddigwyddiadau yr hen flwyddyn Gymreig; y gwyliau; y ffeiriau a'r hen ddefodau. Dangosodd pa mor gyfuriog o werthfawr yw'r rhigymau yma gan eu bod yn croniclo yn iaith y werin eu hymateb i'w byd a'u bywyd. Mr Gwynn Davies a dalodd y diolchiadau a chyfeiriodd at y llafur a'r gwaith ymchwil manwl a oedd tu ôl i'r ddarlith. Bydd naws y Nadolig ar y cyfarfod nesaf a gynhelir ar Ragfyr 18, pryd y bydd Mr Rhodri Jones yn 'Cofio'r Ŵyl'.

ROWND GYN-DERFYNOL

CWPAN FERODD — Mewn rownd gyn-derfynol yn cynnwys dwy ran fe aeth tîm Waunfawr Juniors ymlaen i'r rownd derfynol trwy ddod yn gyfartal 3-3 yn y rhan gyntaf a churo Bethel 1-0 yn yr ail ran gyda gôl gynnar gan Tom Pritchard. Yr oedd yn gêm hynod gyffrous yn cael ei hymryson yn ffyrnig, ac yn dod yn fwy dramatig pan yrrwyd golgeidwad Waunfawr oddi ar y cae yn yr ail hanner. Fe ysbrydolodd hynny'r deg oedd ar ôl i wella'u gêm. Ar brydiau 'roedd eu gôl fel petai'n arwain bywyd hudol. Aeth Mike Parry i'r gôl ac fe ymatebodd yr oll dîm i'r her.

Bydd y rownd derfynol ar fore Dydd Calan. Gobeithio y bydd yno gynulliad da o bobl y Waunfawr i roi hwb i'r tîm ymlaen.

MERCHED Y WAWR — Cynhaliwyd y cinio Nadolig eleni yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis ar Dachwedd 23. Ar ôl mwynhau pryd o fwyd blasus, cafwyd nifer o gemau wedi eu trefnu gan y pwyllgor. Cafodd pob aelod anrheg bychan mewn gêm yn ymwneud ag enwogion Cymru ar hyd yr oesoedd. Trefnwyd y gêm a rhoddwyd yr anrhegion gan Mrs Awstin Jones.

Enillydd y raffl oedd Mrs Davies, Bryn Eithin. Rhoddwyd llongyfarchiadau calonnog i'r llywydd Alma Jones ar lwyddo i basio ei phrawf gyrru o'r diwedd.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y flwyddyn newydd ar nos Iau, Ionawr 25.

Ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 2il cynhaliwyd Ffair Nadolig Merched y Wawr Arfon. Cyfrannodd cangen y Waunfawr i'r ffair drwy drefnu cystadleuaeth darganfod y trysor, dyfalu pwysau'r deisen Nadolig a thwb lwc. Gwnaethom elw o £33.82. Enillydd y deisen Nadolig a wnaethpwyd gan Bet Hughes, Treflan Isaf, oedd Mrs Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed. Potel o 'sherry' oedd y trysor a enillwyd gan Mrs R.E. Jones, Bryn Derwen.

Ar nos Lun, Rhagfyr 4 bu nifer o'r aelodau yng nghanen Merched y Wawr Nant Gwynant. Cafwyd cwis rhwng panel o'r ddwy gangen. Cynrychiolwyd y Waunfawr gan Alma Jones, Glenys Williams, Irene Roberts a Carys Owen. Trefnwyd y cwestiynau gan Dyfed Evans, Pencae-newydd, ac 'roedd y cwbl yn ddiddorol iawn. Rhoddwyd y diolchiadau gan Alma Jones.

ENILLWYR CLWB CANT

MIS TACHWEDD — (1) A. Miles: £8; (2) Mr Griffiths, Ty'n yr Onnen: £4; (3) Mrs Hughes, Gwestad Faes: £2.50.

MIS RHAGFYR: (1) Gwilym Hughes: £8; Nan Huws Roberts: £8; (2) Emlyn Williams: £4; Ifanwy Rhisiart: £4; (3) A. Miles: £2.00; Dafydd Iwan: £2.50

FFAIR NADOLIG Y BLAID

Cafwyd Ffair lwyddiannus iawn ar Ragfyr 8 yn Neuadd yr Eglwys a gwnaed elw o £65. Talodd Siôn Corn hefyd ei ymweliad blynyddol â'r Ffair.

CYDYMDEIMLAD — Estynnwn gydymdeimlad â'r canlynol yn eu profedigaeth — Mrs J. Awstin Jones ar golli chwaer, Mrs Gwen Jones, 12 Bro Waun ar golli priod ac Eurwen a Rhian a'r teulu ar golli tad, Mr Robert Williams, Hafod y Rhug ar golli tad, a Mrs J. Jennie M. Roberts, 9 Bryn Golau ar golli brawd.

YN YR YSBYTY — Yn Ysbyty Minffordd ar hyn o bryd mae Nan Wyn Jones, Tan y Fron, ond mae gobaith y bydd adre cyn y Nadolig.

O'R YSBYTY — Croeso'n ôl i Wendy Griffiths, Tref Eilian gan obeithio ei bod wedi gwella'n llwyr; hefyd Martyn Roberts, Sŵn y Gwynt a fu yn yr ysbty yn ddiweddar.

GWASANAETH UNDEBOL — Cynhelir Gwasanaeth Undebol yn Eglwys Sant Ioan, ar Ionawr 18, 1979.

NOSON GOFFI — Yn Neuadd yr Eglwys ar Ionawr 25, 1979 cynhelir Noson Goffi a'r elw at Gronfa Leol y Feibl Gymdeithas.

GENEDIGAETH — Llongyfarchiadau i Dic a Jean Jones, Llwyn Onn ar enedig-aeth Llio Mair Rhisiart.

I GAERDYDD — Bydd Arfon Jones yn gadael y Waunfawr ddechrau'r flwyddyn i ymgymryd â swydd yng Nghaerdydd. Dymunwn bob hapusrwydd a llwyddiant iddo.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL — (Y Gronfa Leol) — Mae'r Gronfa Leol bellach wedi cyrraedd £1,800, felly dim ond £200 sydd ei angen inni gyrraedd y nod.

Cynhelir awr o Garolau yn Eglwys Sant Ioan, nos Sul, Rhagfyr 24 am 7 o'r gloch dan arweiniad y Canon y Parchedig Glyndwr Williams. Bydd hwn yn wasanaeth undebol ac estynnir croeso cynnes i bawb. Gwneir casgliad gwyn yn ystod y gwasanaeth at Gronfa Leol yr Eisteddfod Genedlaethol.

CYSUR DROS YR ŴYL

A ydych yn ddigalon?

darllenwch Salm 27

A ydych dlawd?

darllenwch Salm 37

A ydyw pobl yn gas tuag atoch?

darllenwch Ioan 15

A ydych yn anhapus yn eich gwaith?

darllenwch Salm 126

A ydych yn teimlo'n wael?

darllenwch Salm 91

A ydych yn colli ffydd mewn cyfeillion?

darllenwch 1. Cor. 13

A ydych eisiau eich ffordd eich hun?

byddwch ddistaw, a darllenwch Iago 3

Os mewn penbleth, agorwch eich Beibl.

Dilys Baylis.

CANOLFAN I LANRUG

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus i drafod yr uchod nos Fercher, Rhagfyr 6ed yn yr Ysgol Gynradd, dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Gwyndaf Jones. Croesawyd Mr. Albert Jones o Gyngor Gwlad Gwynedd, a Mr. R. Wyn Jones, Uwch Swyddog Ieuenctid, Cyngor Sir Gwynedd. Bu'r ddau'n egluro'r camau angenrheidiol ynglŷn â chychwyn ar gynllun o'r fath, a'r amodau ariannol a gweinyddol ynglŷn â grantiau ac yn y blaen. Cafwyd holi manwl a deallus o'r llawr, ond yr oedd yn amlwg fod llawer o syniadau gwahanol ynglŷn â sut fath o Ganolfan Gymdeithasol y byddai ei hangen. Diddorol oedd deall oddi wrth Mr. Albert Jones fod llythyr wedi ei anfon i bob tŷ yn y pentref yn 1945 yn gofyn i'r ardalydd a oedd arnynt angen Canolfan Gymdeithasol. Derbyniwyd 634 o atebion cadarnhaol a 120 yn erbyn. O ganlyniad i'r ymgyrch hon, casglwyd tua £130 ac fe'i trosglwyddwyd yn ddiweddarach i gronfa'r Sefydliad Coffa.

Penderfynwyd ethol Pwyllgor Llywio i drin a thrafod y gwahanol syniadau ac i'r pwyllgor hwn roi adroddiad i Gyfarfod Cyhoeddus arall, lle y gobeithir penderfynu un ffordd neu'r llall ynglŷn â Chanolfan Gymdeithasol. Bydd y Pwyllgor Llywio yn cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, Ionawr 10, 1979, a chynhelir y Cyfarfod Cyhoeddus ar Chwefror 7, hefyd yn yr Ysgol Gynradd.

Y rhai a etholwyd ar y Pwyllgor Llywio yw: Cyng. Gwyndaf Jones, Mrs. Owena Parry, Ael y Bryn; Mrs. Morfudd Roberts, 1 Minffordd Ter.; Mrs. Laura Lewis, Dwyfor; Mrs. Elizabeth Roberts, London House; Mrs. E.J. Rowlands, Brynffynnon; Mrs. Mai Parry, Bryn Heli; Mrs. Eirwen Williams, 1 Bryn Gro; Mri. R.O. Thomas, Gerallt; C. Roberts, Llys Dorfil; Wavell Roberts, London House; R.M. Parry, Ysgol Brynrefail; Tom Davies, Llys Alaw; W. Derfel Gruffydd, Ysgol Gynradd; Elfed Roberts, 24 Glanffynnon; R. John Roberts, Bedw Gwynion; Howyn Jones, Dolwyn; R.T. Pritchard, Ty Newydd a Dafydd W. Thomas, Bron y Nant.

CWM-Y-GLO

MERCHED Y WAWR — Cynhaliodd y gangen leol ei swper blynyddol yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, Rhagfyr 6, trwy garedigrwydd yr ysgolfeistr, Mr. Eurwyn Jones.

Fel arfer Mrs K. Watkins, Dolwen a baratodd y wledol Nadolig. Mwynhaodd yr aelodau a'r gwahoddedigion y danteithion.

Yr ydym fel cangen yn ddyledus i Mrs Watkins am ymgymryd â'r gwaith hwn flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mrs Lowri Prys Williams, y llywydd, a Miss Mat Pritchard yr is-lywydd oedd yn gyfrifol am yr adloniant. Cafwyd darlenniadau allan o'r Ysgrythur gan Mrs Hannah Jones, Tawelan a Mrs Verna Jones, Meillionen — pennod allan o'r 'Lôn Wen' (Dr. Kate Roberts) gan Miss Mat Pritchard ac adroddiad allan o Gerddi Cynan gan Mrs Gwyneth Chick.

Y parti canu carolau oedd Mrs Menna Williams, y Waunfawr, Mrs Eluned Hughes, Miss Elizabeth Hughes, Mrs Iris Rowlands, Mrs K. Watkins, Mrs Margaret Williams a Mrs Sylvia Williams. Cyfeiliwyd gan Mrs Lowri Prys Williams.

Cafwyd sgats dymhorol a hwyliog hefyd o waith Miss Mat Pritchard ei hun. Yr actorion oedd Mrs Watkins, Miss E. Hughes a Mrs Margaret Williams. Diolchodd Mr Llew Hughes i bawb a fu wrthi mor ddygn yn gwneud y noson yn llwyddiannus.

Disgwylir y Parch. Hugh J. Hughes i annerch ar Ionawr 17.

LLONGYFARCHIADAU — i Mr a Mrs Noel Parry, 16 Dolafon ar enedigaeith mab, Dewi Glyn, — brawd i Cheryl Ann, ac ŵyr bach newydd i taid ar yr aelwyd.

Hefyd i Mr a Mrs Tredale, Bodwyn ar enedigaeith merch, Lila Mary — chwaer i Joe. Croeso i'r ddau bach.

DIOLCH — Dymuna Mrs Edith Owen, Talgwynedd, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am y caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod gartref. Gwerthfawroga bob ymweliad, ynghyd â'r rhoddion, llythyrau a chardiau.

Carai John Chick, Tan y Bryn, ddiolch o galon i bawb, yn deulu a chyfeillion, am yr holl anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed.

COLLEDION — Pan ar fynd i'r wasg, daeth y newydd am farwolaeth ddisyfyd ein cyn-weinidog, y Parch. Gwilym Angell Jones, yng nghartref ei fab a'i ferch-yng-nghyfraith yng Nghoris. Collodd ei briod ychydig fisoedd yn ôl. Er iddo symud i fyw i Benrhosgarnedd ar ei ymddeoliad, ni cholodd Mr Jones ei gyswllt â'r ardal, a daliodd i'r diwedd i roi ei wasanaeth mewn priodas ac angladd. Gwnaeth ei natur addfwyn, a'i agosatrwydd, ef yn annwyl i ni i gyd, a bydd bwllch mawr ar ei ôl. Cydymdelmlwn yn ddwys â'i fab a'i briod, Mr a Mrs Gwyn Jones, hefyd â Rhys a Beth, o golli taid caredig.

MISS GRACE WILLIAMS — Ar Dachwedd 21, ym Mryn Seion, Llanrwst, bu farw Miss Grace Williams, Llys y Gwynt, yn 86 oed. Hyd ei hymddeoliad, rhoes flynyddoedd o wasanaeth gwerthfawr ym myd nyrso. Yn wraig ddeallus a chwrtais, bydd colled am ambell sgwrs ac atgof melys o'r dyddiau fu. Derbyniad ei hunig chwaer a'r teulu ein cydymdeimlad dyfnaf.

O'R YSBYTY — Balch oeddyd o weld Mrs E. Phillips, 3 Groeslon wedi dod adref o'r ysbyty.

Bu Tony, mab Mr a Mrs W.O. Jones, Gwesty'r Snowdon am driniaeth mewn ysbyty hefyd, ond yntau wedi cael dod adre'n ôl erbyn hyn. Llwyd wellhad fo i'r ddau.

DYMUNIADAU DA — Carem fel pentref anfon ein cofion a Chyfararchion y Tymor i Miss Blodwen Williams yng Nghartref Maesincla, i Mrs Jennie Evans a Mr Alun Hughes ym Mhlas Pen Gwaith, ac i Mr Gwilym Evans yn ysbyty Gallt y Sil ac i blant y Cwm lle bynnag yr ydych, dymunwn Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda.

GWASANAETHAU'R NADOLIG YNG EGLWYS SANT GABRIEL — Bydd y gwasanaethau canlynol yn Eglwys Sant Gabriel dros y Nadolig: Sul 24 Rhagfyr 10.0 a.m. BOREOL WEDDI; 2.00 p.m. YSGOL SUL; 6.0 p.m. GWASANAETH NAW LLITH A CHAROL. Fore'r Nadolig am 9.0 bydd Gweinyddiad o'r CYMUN BENDIGAID. Gobeithir y bydd gwasanaeth Gwylnos am 11.15 nos Sul Rhagfyr 31.

LLANBERIS

LLONGYFARCHIADAU — i Keith Morris, 9 Rhes Victoria ar ennill pedair gwobr gyntaf yn Sioe Adar, y Felinheli, hefyd gwobrau 1af, 2il a 3edd yn Sioe Bethesda.

LLONGYFARCHIADAU — i Ieuan Lloyd Roberts, mab Mrs Mair Roberts, Oak View, ar gael ei benodi yn brifathro Ysgol Gynradd Gronant ger Prestatyn, Clwyd.

BEDYDD — Dydd Sadwrn, Rhagfyr 9 yn yr Eglwys Babyddol, yng Nghaernarfon, bedyddiwyd Susan Patricia, merch fach Mr a Mrs P. Rainbow, Stryd yr Wyddfa.

DIOLCH — Dymuna Mona Lewis, Cilan, Ffordd Fawr, ddiolch yn fawr i'w theulu a ffrindiau am eu cardiau a'u dymuniadau da tra 'roedd yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna Mr a Mrs Dennis Pitts, Dôl Elidir, ddiolch am bob caredigrwydd, anrhegion a chardiau a dderbyniodd eu merch Gillian. Mae Gillian ar hyn o bryd yn ysbyty Myrtle Street, Lerpwl wedi cael triniaeth lawfeddygol. Ein dymuniadau am adferiad buan iddi.

PEN-BLWYDD — Pob dymuniad da iti Geraint Wyn, 40 Stryd Goodman, ar dy ben-blwydd yn 18 oed oddi wrth dad, mam, Bethan a nain.

CRONFA'R EISTEDDFOD — Dymuna Bwyllgor Lleol 'Steddfod '79 ddiolch yn fawr i'r Dosbarth Arlunio am eu rhodd o £5 tuag at y gronfa.

Cynhelir disgo ar Ionawr 5 yn y Ganolfan.

Plant lau: o 6.30—8.30, a'r plant hyn: o 8.30 tan 10.30.

MARWOLAETH — Dydd Iau, Rhagfyr 7, bu farw Mrs Blodwen Roberts, Dôl Elidir. Estynnir cydymdeimlad dwysaf yr ardal i'w meibion a'u teuluoedd.

Y CARNIFAL — Nos Iau, Ionawr 11 cynhelir cyfarfod blynyddol y Carnifal. Mae croeso cynnes i bobl yr ardal yno.

YN YR YSBYTY — Mae Mr Jack Davies, Rhes Efrog, Mr Ifor Morris, Dôl Eilian a Miss Gwyneth Williams, Y Llythyrdy yn Ysbyty Môn ac Arfon Bangor. Ein dymuniadau gorau iddynt, a brysient adre yn fuan wedi mendio'n llwyr.

Dymunwn wellhad buan hefyd i holl aelodau'r ardal sy'n wael.

EISTEDDFOD — Nos Wener, Rhagfyr 2il, cynhaliwyd Eisteddfod Eglwys Sant Padarn a Sant Peris yn neuadd eglwys Sant Padarn. 'Roedd yr eisteddfod yn un eithriadol o lwyddiannus.

CYDYMDEIMLO — Ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Beryl Jones, Stryd y Dŵr ar golli ei hewythr yn ddiweddar.

Mae nai bach Mrs Jones hefyd yn yr ysbyty ar ôl damwain, pan losgodd ei gorff yn heggar.

Y GYMDEITHAS FEIBLAIDD — Casglwyd £91.50 at y Gymdeithas. Dymuna Mr Howell Morris a Mrs Dilys Bayliss ddiolch yn gynnes iawn i'r casglwyr canlynol:

Mr Alun Roberts (Jeriwsalem): £7; Mrs Ettie Hughes (Eglwys): £16.50; Miss Bethan B. Jones (Capel Coch): £7.85; Mr. John S. Thomas £4; Mrs Carys Hughes (Preswylfa): £5.60; Mrs Nettie Williams (Gorffwysfa): £5.10; Mrs Enfyys Parry a Mrs Appy Jones (Gorffwysfa): £12.15; Mr Thomas Evans a Mrs Hannah Jones (Nant Padarn): £22.10; Mrs Annie Pritchard a Miss Doreen Ward (Nant Padarn): £6.70; Gwasanaeth Undebol: £4.50.

GWASANAETH Y PLANT — Yng Nghapel Gorffwysfa am 5.30 y bydd Gwasanaeth y Plant nos Sul Rhagfyr 24, ac nid yng Nghapel Coch fel a gyhoeddwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco.

CLWB METHEDIG ERYRI — Cynhaliodd aelodau'r Clwb eu Cinio Nadolig yn Erw Fair, Llanberis. Caed anerchiadau gan y Cynghorydd Trefor W. Williams, Mr Ieuan Ellis Jones, MPS, Matron A.M. Jones, SRN, llywydd y Clwb, Mr Oswyn Rees, Swyddog Rhanbarthol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Arfon a Mr Ted Thomas, ysgrifennydd y Clwb. Mrs M. Jones, Bod Eilian a enillodd y wobwr gyntaf ar y raffl. Cafwyd cyngerdd cofiadwy gan Ferched Glynrhonwy. Diolchwyd iddynt gan yr is-gadeirydd Mr Griffith.

DIOLCH — Dymuna Mr a Mrs Ted Thomas, 15 Ffordd Tŷ Du ddiolch i bawb am yr anrhegion a chardiau a gawsant pan yn dathlu eu priodas Rhuddyn.

CLWB 300 — Enillwyr Tachwedd: (1) £25: (261) Mrs J.M. Bullen, 34 Elidir. (2) £10: (211) Mr A Ruckin, Gerafon. Enillwyr Rhagfyr: (1) £35: (21) Mr K. Parry, Browen, 85 Lon Garth Uchaf, Bangor; (2) £20: (275) Dilys Hughes, Tryfan, 32 Stryd Newton. (3) £10: (149) Mrs M. Thomas, 15 Ffordd Ty Du; (4) £10: (48) E. Humphreys, Gwastadnant, Nant Peris; (5) £10: (161) Carys Lloyd Williams, Prince of Wales, Llanberis; (6) £10: (16) Mr R. Jones, Glasfryn, High Street; (7) £5: (135) Mrs Mair Ll. Roberts, Oakview; (8) £5: (263) Nerys Roberts, Gwalia House; (9) £5: (278) M. Rowlands, 94 Maes Padarn; (10) £5: (139) Mrs Evans, Derlwyn.

Nadolig Llawn
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth



CLED'S SOFT DRINKS

(CLEDWYN P. JONES)

2 Dolafon, Cwm-y-Glo

Ffôn: Padarn 444

Corona

AR GARREG EICH DRWS!

Dyddiadur Mis

Ionawr 1, Llun: LLANRUG — Taith Plant Ysgol Sul Sant Mihangel i weld 'Elibabi.'

Ionawr 5, Gwener: LLANBERIS: Disgo'r Flwyddyn Newydd gyda DISCO 54 yn y Ganolfan. Plant iau o 6.30 tan 8.30. Plant hyn o 8.30 tan 10.30. Elw at Gronfa'r Eisteddfod.

Ionawr 8, Llun: YR ARDAL: Yr ysgollion yn aildechrau.

LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.

Ionawr 9, Mawrth: LLANBERIS: Pwyllgor Lleol Eisteddfod '79 yn Festri Gorffwysfa am 8.00

Ionawr 10, Mercher: LLANBERIS: Pwyllgor Lleol Eisteddfod '79 yn Festri Gorffwysfa am 8.00

Ionawr 10, Mercher: LLANRUG: Y Cyngor Eglwys — Pregeth gan y Parch. Gareth Edwards, Porthmadog yn y Capel Mawr.

LLANBERIS: Y Gymdeithas Drama.

Clwb y Mamau — noson yng nghwmni Hogia'r Banc.

Ionawr 11, Iau: LLANRUG: Y Cyngor Eglwys — Cyfarfod Gwedd yng Nghapel Hermon.

LLANBERIS: A.G.M. y Carnifal yn y Ganolfan.

Ionawr 15, Llun: LLANBERIS: Clwb Methodig Eryri. (Pob pawns Llun).

Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.

Dosbarth nos 'Arlunio' (pob nos Lun)

Ionawr 16, Mawrth: LLANRUG:

Cymdeithas Undebol Ponrhythallt — sgwrs gan y Parch. O.M. Lloyd.

Ionawr 17, Mercher: LLANBERIS: Y Gymdeithas Ddrama

Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30

CWM-Y-GLO — Merched y Wawr — sgwrs gan y Parch. Hugh John Hughes

Ionawr 18, Iau: BETHEL: Sefydliad y Merched

WAUNFAWR: Gwasanaeth Undebol yn Eglwys Sant Ioan

Ionawr 22, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30

Ionawr 24, Mercher: BETHEL: Clwb y Mamau. LLANBERIS: Clwb y Mamau — Bingo

Ionawr 25, Iau: LLANBERIS: Sefydliad y Merched

WAUNFAWR: Merched y Wawr Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys er budd y Feibl Gymdeithas

Ionawr 29, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pel-droed yn y Ganolfan am 7.30

LLANRUG: Noson Goffi dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Neuadd Goffa

Ionawr 31, Mercher: LLANBERIS: Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30

Dyddiadau i'w Cofio

CHWEFROR 15—Eisteddfod Ysgol Brynrefail

RHAGFYR 30: Cinio blynyddol y seindorf yng Ngwesty'r Fictoria Llanberis.

IONAWR 8 — Seindorf Deinlolen yn cymryd rhan yn y rhaglen "Llun ar y Radio" bawn Llun ar Radio Cymru.

Arddangosfa Fawr

Gwêl Cyngor Bwrdeisdref Arfon werth diwydiannol i'r Eisteddfod Genedlaethol ac oherwydd hynny bwriada gynnal arddangosfa gwerth £9,110 yng Nghaernarfon fis Awst nesaf.

Trefnir yr arddangosfa gan Gwmni J.A. Davies o Gaer a drefnodd arddangosfa gyffelyb yn Eisteddfod Wrecsam ar ran Cyngor Wrecsam/Maelor.

Y mae Arfon yn disgwyl incwm o rhyw £5,110 gan ddiwydianwyr a fydd yn prynu lle yn yr arddangosfa a thelir gweddill y

gost o'r trethi.

Gwêl Arfon faes yr Eisteddfod fel y lle delfrydol ar gyfer arddangosfa sy'n mynd i ddenu diwydianwyr a gwaith i'r ardal.


"Dylai'r awdurdod hwn fudd-soddi peth arian i annog gwaith parhaol ac annog diwydiannau newydd i Arfon," meddai'r Dirprwy Brif Swyddog Cynllunio "a gellir sicrhau hynny gyda gweithgarwch hyrwyddiant diwydiannol brwd ac y mae'r Arddangosfa steddodol hon yn rhan anhepgor o hynny."

Bydd yr arddangosfa law yn llaw ag un arall gan Gyngor Sir Gwynedd yn dangos sut y gweithreda gwahanol adrannau y Cyngor Sir.

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



CROESAIR ARBENNIG



S	I	O	N	C	O	R	N		B
E	E	C	O						A
R	S		D			B		Y	B
E	U	U	N	D	E	U	W	CH	A
N	A	D	O	L	I	G	O	E	N
O	F	N	E	G	R	A	E	N	C
C	A	E	L	M	A	I	R	D	A
O	L	E	T	Y	T	L			M
D	O	F	T	R	Y	S	O	R	L
I	N	C	A	R	O	L			E

ENW.....

CYFEIRIAD.....

Dychweler i Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.

Dyma groesair gwahanol ar gyfer y Nadolig.

Mae'r atebion wedi eu rhoi ichwi, dim ond ichwi eu gosod yn y lle cywir ac fe fydd y croesair yn gyflawn.

Mae llinell dew yn golygu dechrau neu ddiwedd gair.

Bydd gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf a ddaw i law.

Yr atebion fel arfer i:
Myrddin Owen, 32, Stryd Fawr, Llanberis.

Crud	Codi
Mair	Tref
Baban	Cael
Llety	Dof
Bugail	Carol
Iesu	Ef
Duw	Camle
Oen	Eco
Noel	Deuwch
Côr	Da
Tri	Yr
Clud	Nod
Seren	Ychen
Siôn Corn	Tŷ
Trysor	Myrr
Ofn	Afallon
Oer	Un
Eira	Nef
Ne	Graen

ATEBION CROESAIR RHIF 28

AR DRAWS: 3. Drennydd; 7. Eglwys; 8. Festri; 9. Annuwiol; 11. Nant; 12. Bendithion; 17. Llaidd; 18. Annelwig; 19. Seilio; 20. Ohonot; 21. Arolygu.

ILAWR:

1. Tresaith; 2. Ffolineb; 3. Dwynwen; 4. Nofel; 5. Ymsynio; 6. Saint; 10. Osian; 13. Eidalwr; 14. Iselhau; 15. Newynog; 16. Ysgytio; 17. Llusgo; 18. Arogl.

ENILLYDD CROESAIR RHIF 28

Graham Roberts,
Hyfrydle,
Ffordd Capel Coch,
Llanberis.



CHWARAEON

JUDO



Eryn ac Adrian — Jiwddoges Ysgol Brynrefail.

Daeth llwyddiant i dri o hogia'r ardal yn ddiweddar ym mhen-campwriaethau Gwynedd a Gogledd Cymru a gynhaliwyd yng ngwersyll yr Awyrlu yn Sealand.

Aelodau o Glwb Judo Bangor yw'r tri, fe gofiwch i bwt am weithgareddau'r Clwb ymddangos yn yr Eco ychydig fisoedd yn ôl, a Wyn Hughes o Ddeiniolen yw un o'r hyfforddwyd yno.

'Does ond naw mis er pan ddechreuodd Adrian Williams o Lanberis ymddiddori yn y gamp. Disgybl ydyw ym Mhedwerydd Dosbarth Ysgol Brynrefail, ac yn llefnyn tal a chyhyrog. Oherwydd ei faint a'i bwysau, bu'n rhaid iddo gystadlu yn y dosbarth lau i rai dros 80 kg. ac enillodd iddo ei hun y Fedal Arian ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru, a'r Efydd ym Mhencampwriaeth Gwynedd.

Enillodd yr hawl, hefyd, rhyw bum mis yn ôl i wisgo'r belt Oren, ac mae'n gweithio'n galed er mwyn cael ymgeisio am y Gwynedd.

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

"FO" YN YR YSGOL

Pnawn Mercher, y chweched o Ragfyr cafodd y Gŵd Dosbarth sgwrs ddifyr iawn gan Mr Guto Roberts, Rhoslan, yr actor enwog.

THEATR CLWYD

Aeth criw mawr o'r dosbarthiadau cyntaf ac ail i Theatr Clwyd, ddydd lau, Rhagfyr 14 i weld perfformiad o 'Toad of Toad Hole'. Cafodd saith o'r athrawon weld y sioe hefyd, sef Mrs N. Manning, Mrs Ann Jones, Mrs Mary Hughes, Mrs Rhian Ellis, Miss Rhiannon Ellis, Mrs K. Owen a Mr I. Williams.

GWEITHGAREDDAU'R NADOLIG

Cynhaliwyd Parti Nadolig i blant Ysgol Pendalar, pnawn Llun, Rhagfyr 18 a rhoddwyd anrheg i bob un ohonynt. Trefnwyd y parti gan y chweched dosbarth.

Nos Lun, Rhagfyr 18 cynhaliwyd disco i ddosbarthiadau 3, 4, 5 a 6 gyda'r elw'n mynd i 'Apel Angorfa'. Cynhaliwyd disco Nadolig i ddosbarthiadau 1 a 2 pnawn Mercher, Rhagfyr 20.

Bu gwasanaeth carolau yn yr ysgol nos lau, Rhagfyr 21 gyda chyfraniadau gan amryw o ddisgyblion yr ysgol. Aeth yr elw tuag at Glwb Methodig Eryri.

Ym Mhuned Dosbarth yr ysgol y mae Eryn Williams o Ddeiniolen a bu ef wrthi ers dwy flynedd. Y mae'r hawl ganddo i wisgo'r belt Gwyrdd, ac enillodd yn Sealand Fedal Arian yn y ddwy Bencampwriaeth yn y dosbarth lau i rai dan 50kg. Fe'i dewiswyd yn ddiweddar yn aelod o Garfan lau Cymru, ac mewn cystadleuaeth yng Nghaerdydd bu ond y dim iddo gael ei ddewis i gynrychioli ei wlad ym Mhencampwriaeth Prydain yng Nghystal Palace.

Paul Williams, deunaw mlwydd oed o Lanrug yw'r trydydd, ac ef yw un o sêr disgleiria'r Clwb. Y mae'n wisgo'r belt Brown yn y dosbarth hŷn, ac yn yr adran o dan 65kg yn Sealand enillodd Fedal Arian Gwynedd ac Efydd Gogledd Cymru.

YN Y FFEINAL ETO

Y mae tîm pêl-droed dan 15 oed Deiniolen wedi ennill ei ffordd i rownd derfynol Cwpan Bernard Wardle. Fe gofiwch iddynt ei hennill y llynedd, ac ni fu tîm Peblig fawr o broblem iddynt yn y rownd gyn-derfynol eleni 6-1 a 1-1 oedd canlyniadau'r ddwy gêm.

Morfa Rangers fydd yn eu gwrthwynebu yn y ffeinal, ar gae Caernarfon Utd. am 11 ar fore dydd Sant Steffan. Bydd dwy fys yn rhedeg yno yn rhad ac am ddim o Ddeiniolen — beth am eu llenwi er sicrhau cefnogaeth deilwng i'r hogia!

PÊL-DROED DAN 15 LLANBERIS

Gŵyl Sant Steffan (Boxing Day) am 2 o'r gloch yng nghae Padarn Road, timau saith bob ochr Llanberis, yn chwarae yn erbyn Cwm-y-glo.

ATODIAD LLANBERIS

DIOLCH — Dymuna Andrew Williams, 23 Stryd Fawr, ddolch i bawb a fu mor garedig wrtho tra y bu yn Ysbyty Dewi Sant Bangor.

Parhad o'r dudalen flaen

adeiladu'r lanfa gyda chyfraniad gan y Cyngor Cymuned tuag at y deunydd i atgyfnerthu'r ochrau.

Yn ystod y cyfnod cynnar 'roedd i dŵr o Stryd yr Wyddfa yn llifo i dai a siopau'r pentref. Er bod y broblem honno bellach wedi ei goresgyn mae Mr Jones yn poeni fod yr holl ddŵr ychwanegol yn gosod straen ar yr ymdrechion sydd wedi eu gwneud i wella'r sefyllfa.

Yn ystod y mis diwethaf, fel canlyniad i lawogydd trwm, cafwyd llifogydd yn Nant Peris am y tro cyntaf. Bu Mr Jones ei hun allan tan hanner nos gyda

PEL-DROED

TARIAN TUCKER

9/12/78

Cynghrair Caernarfon 4
Cynghrair Conwy 0

Chwaraewyd y gêm ar gae Llanrug, ac yr oedd y mwyafrif o'r tîm wedi hen arfer â chwarae arno am fod 7 o dîm Llanrug yng ngharfan Cynghrair Caernarfon. 'Roedd dau aelod o dîm Llanberis yn chwarae hefyd, a gellid dweud bron iawn mai tîm Eco'r Wyddfa oedd yn chwarae! Dwy gôl ym mhob hanner yn ddigon i gario'r Cynghrair i'r rownd derfynol yn erbyn Cynghrair Môn y mis Mawrth nesaf. Hefin Jones, Len Padmore a Vernon Lloyd (o Lanrug) yn sgorio 3 gôl, a'r llall gan T. Williams o Bwllheli. Aelodau Llanrug yn y tîm oedd Peter Roberts, Len Padmore, Ken Jones, Gwynfor Owen, Hefin Jones, Vernon Lloyd a John Hammond, a'r aelodau o Lanberis, Gwilym Williams a Selwyn Allsup. 'Roedd Iwan Evans a Gareth Williams hefyd wedi eu dewis, ond heb fod yn chwarae. Howyn Jones (Llanrug) oedd rheolwr y tîm.

LLANRUG

16/12/78

AIL ROWND CWPAN J.W. LEES

Porthmadog 2 Llanrug 10

DIOLCH

£3: Mr a Mrs Lewis, Dundas, Awstralia.

£3: Mr. R. Elwyn Williams, Caergybi.

gweithwyr y Cyngor Sir yn ceisio dod i wraidd y broblem. Cynigiodd fod y bai ar y ffordd newydd sydd wedi ei hadeiladu. Mae'r ddwy wal bob ochr yn solet ac felly yn ffurfio argaeau sy'n atal y dŵr rhag llifo i ffwrdd. Awgrymwyd hefyd nad oedd y pibellau o dan y ffordd yn ddigon mawr i gynnal y dŵr. Dywedwyd wrtho fod y B.C.C.T. yn edrych i'r sefyllfa. Gobeithir trefnu cyfarfod rhywbryd yn Ionawr, rhwng cynrychiolwyr y B.C.C.T. a'r Cyngor Sir i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.

Hefyd, yn ystod yr wythnosau diwethaf 'roedd maes parcio'r Gwaith ger Pont Bala dan tua dwy droedfedd o ddŵr.

Mae problem hefyd yng Nghwm-y-glo. Mae'r dŵr yn codi yn y gors sy' rhwng yr afon a'r ffordd osgoi ac mae'r ddau gylfert sydd dan y ffordd ar ochr y pentref yn wastad dan ddŵr. Mae rhai pobl yn y pentref yn gallu tystio fod y dŵr yn dod yn llawer agosach at eu tai ac yna yn aros yn eu gerddi am amser hir, hyd yn oed ar ôl i'r glawogydd beidio. Mae peiriannydd y Bwrdd Afonydd a'r Cyngor Sir yn gwybod am y broblem. Bwriedir cynnal cyfarfod rhwng cynrychiolwyr o'r ddau gorff a Mr Francis Jones yng Nghwm-y-glo ar ôl gwyliau'r Nadolig.

Dywedodd Mr Jones ei fod wedi codi'r mater llifogydd mewn sawl

Curfa arall i Borthmadog, ond chwarae teg iddynt, 'roedd hanner eu tîm dan 18 oed, ac 'roedd yn ymarfer da iddynt chwarae yn erbyn bachgyn profiadol Llanrug. Pump gôl gan Llanrug ymhob hanner. Rhestr y sgorwyr — Vernon Lloyd 4, John Hammond 2, Alan V. Owen 1, Peter Roberts 1, Ken Jones 1 ac un arall gan gefnwr Porthmadog.

LLANBERIS

1/12/78

Llanberis 0 Rhuthun 0

Perfformiad da ar y cyfan gan hogia Llanbêr, ond yn methu'n lân â rhoi'r bêl yn y rhwyd. I John Pritchard a Gareth Williams yn y cefn mae'r diolch mwyaf na lwyddwyd i wneud hynny gan Rhuthun ychwaith.

16/12/78

Llanberis 1 Sunblest Utd. 1

Ail chwarae oddi cartref oedd y canlyniad yn y Cwpan hon eto. Phil Holland yn rhoi Llanberis ar y blaen, ond Sunblest yn dod yn gyfartal ym munudau ola'r gêm a hwy edrychai debycaf o ennill. Yn wir dedfrydwyd cic gosb iddynt yn yr eiliadau olaf ond llwyddodd Gwilym Williams, golgeidwad Llanberis i'w cadw yn y gystadleuaeth gan arbed yn dda oddi ar y smotyn gwyn.

BETWS GARMON

CYDYMDEIMLIR — â Mr O.P. Pritchard, Plas Isa ar golli ei chwaer, Mrs Jane Evans, Dolgellau (Plas Isa gynt).

cyfarfod cyswllt gyda'r B.C.C.T. ac er ei fod wedi clywed dadleuon arbenigwyr ar ran y Bwrdd nid yw eto wedi ei ddarbwylllo. Mynegodd fod y profiad oedd ganddo o fod allan hyd oriau mân y bore yn 'sgubo dŵr o dai trigolion yr ardal yn llawer cryfach na'r ystadegau ynglŷn â lefelau dŵr a gynigir gan y Bwrdd.

Cred yn gryf mai glanhau'r afon Seiont rhwng Pontrhythallt a Phenllyn yw'r ateb. Bydd lefel Llyn Padarn yn gostwng a bydd dyfroedd yr Afon Hwch yn symud yn gynt. Ond, nid yw'r arian gan y Bwrdd Afonydd i wneud y gwaith. Pan awgrymodd Mr Jones drwy lythyr i'r Bwrdd Afonydd ac i'r Bwrdd Trydan ymuno'u hadnoddau i geisio gwella'r broblem gwrthododd y B.C.C.T. dderbyn y cyfrifoldeb am unrhyw anhawster.

Mewn cyfarfod a drefnwyd yn Glyn Rhonwy gyda'r B.C.C.T. 'roedd mwy o gynrychiolaeth gan y Bwrdd Afonydd o'u hadran bysgota nag a oedd o'u peirianwyr. Rhaid cofio fod y rhan o'r Seiont sy' dan sylw yn cael ei chydabod fel man pwysig iawn i eogiaid fridio. Felly, mae'n bur amlwg beth yw blaenoriaeth y Bwrdd Afonydd yn y mater hwn. Mae Mr Jones eisoes wedi gofyn am gefnogaeth y Cyngor Sir i roi pwysau ar y Bwrdd Afonydd.